# SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU

# #ISWE

Prifysgol Bangor | Rhifyn 5 | Gaeaf 2019 / 2020



Penrhos, Ynys Môn

## GRANT I DDATGELU CYNNWYS LLYTHYRAU MOSTYN O'R AIL GANRIF AR BYMTHEG

Bydd tair mil o lythyrau prin o'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif ar gael i'r gymuned ysgolheigaidd ryngwladol o ganlyniad i dderbyn grant ymchwil gan Gronfa Marc Fitch.

Yn 2018 dyfarnwyd grant o £40,000 i SYYC i ddigideiddio ac ymchwilio i gasgliad eithriadol o lythyrau a gedwir yn llyfrgell Plas Mostyn yn Sir y Fflint.

Derbyniwyd y llythyrau gan Syr Thomas Mostyn (1651-92) a Syr Roger Mostyn (1673-1739) oddi wrth rwydwaith helaeth o gysylltiadau a gohebwyr yn ystod y cyfnodau c.1672-92 a c.1721-40. Mae'n un o'r casgliadau mwyaf cynhwysfawr o lythyrau sydd wedi goroesi yng Nghymru o'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed. Yn ystod y cyfnod hwn roedd Mostyniaid Mostyn a Gloddaith yn un o deuluoedd bonedd amlycaf Cymru. Mae'r llythyrau'n ymwneud â phob agwedd ar eu diddordebau a'u gweithgareddau, gan amrywio o faterion seneddol, dadleuon crefyddol a dal swyddi, i gasglu llyfrau, strategaethau priodas, addysg, hynafiaethau a hel straeon lleol. Maent hefyd yn cynnwys casgliad digymar o gylchlythyrau wedi'u cyfeirio'n bersonol, a anfonwyd o Lundain i Blas Gloddaith, sy'n rhoi sylw manwl i bob agwedd ar newyddion cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r llythyrau wedi'u rhwymo'n gyfrolau sy'n rhan o'r llyfrgell enwog ym Mhlas Mostyn, Sir y Fflint. Diolch i gefnogaeth yr Arglwydd Mostyn, bydd yr holl lythyrau nawr yn cael eu digideiddio ac ar gael i'w hastudio a'u darllen ar wefan Early Modern Letters Online (EMLO), a reolir gan Brifysgol Rhydychen.

Dros y flwyddyn ddiwethaf ymchwiliwyd i'r llythyrau a'u trawsgrifio gan Dr. Mary Chadwick a Dr. Sarah Ward Clavier (University of the West of England), sydd ar hyn o bryd yn paratoi metadata i ganiatáu iddynt gael eu harchwilio ar-lein. Genus sydd wedi digideiddio'r llythyrau.

Cyhoeddwyd project Cronfa Marc Fitch yn ffurfiol adeg lansio arddangosfa #Mostyn100 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 6 Gorffennaf 2018.

Meddai Dr Shaun Evans, Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, wrth ymateb i'r newydd am dderbyn y grant:

''Rydym yn falch iawn ein bod wedi derbyn y grant hwn gan Gronfa Marc Fitch, a fydd yn caniatáu inni ddatgloi potensial ymchwil un o'r casgliadau pwysicaf o lythyrau sydd wedi goroesi o Gymru o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif. Bydd y cyllid ar gyfer digideiddio yn ein galluogi i wneud y llythyrau'n hygyrch i gynulleidfa ysgolheigaidd fyd-eang am y tro cyntaf. Rydym yn hynod ddiolchgar i Gronfa Marc Fitch am gefnogi'r project, ac i'r Arglwydd Mostyn am ei barodrwydd i rannu'r casgliad treftadaeth ddiwylliannol pwysig hwn. Gall y llythyrau hyn roi golwg newydd a threiddgar ar ystod o faterion a digwyddiadau hanesyddol a byddant yn cael eu defnyddio gan academyddion am flynyddoedd i ddod.''

MARC FITCH FUND

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY


| t. 2 - 4 | t. 5 - 8 | t. 9 - 12 | t. 13 - 14 | t. 15 - 16 | t. 17 - 21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Newyddion | Ymchwil & Phrosiectau | Digwyddiadau | Archifau & Chasgliadau | Llyfrau | Nodweddion |


*Diolch yn fawr i Dr. Gareth Huws am lunio'r erthyglau ar gyfer y cylchlythyr hwn.*

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## NEWYDDION

### COFFÂD: YR ATHRO A.D. CARR

Tristawyd pawb a oedd yn gysylltiedig â SYYC a Phrifysgol Bangor o glywed am farwolaeth Yr Athro A.D. Carr ar 30 Ebrill 2019.

Roedd Yr Athro Carr yn un o haneswyr uchaf ei barch ei genhedlaeth ym maes yr oesoedd canol. Roedd yn ddyn gwirioneddol ddymunol, bob amser yn garedig a hael gyda'i wybodaeth, ei arbenigedd a'i gyngor.

Graddiodd Tony mewn Hanes o Fangor ym 1959 ac aeth ymlaen i ennill ei ddoethuriaeth yma ym 1976 gyda thraethawd gwych ar deulu ac ystâd Mostyn, gan olrhain eu datblygiad hyd at 1642 a dangos dadansoddiad rhagorol o ddeunydd archifol a fyddai'n gonglfaen ei yrfa ddisglair fel archifydd a hanesydd academaidd. Rhwng 1979 a 2002 bu'n gyfarwyddwr y cwrs diploma nodedig mewn Gweinyddu Archifau ym Mangor, a hyfforddodd nifer fawr o raddedigion sydd bellach yn arwain archifdai ledled Prydain. Ond fe'i cofir hefyd fel athro a ddaeth â hanes yr oesoedd canol yn fyw i'w fyfyrwyr. Daeth yn Athro Hanes Cymru'r Oesoedd Canol ym Mangor ym 1999 a bu'n bennaeth yr Ysgol Hanes a Hanes Cymru o 1990 tan 1993. Enillodd gydnabyddiaeth allanol fel Cymrawd y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol ym 1976 a Chymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr ym 1980, ac ystyrir ei gyfrol hollbwysig, *Medieval Anglesey* (1982, 2il arg. 2011), yn ddadansoddiad gwych o gymdeithas ac economi rhanbarth neilltuol. Bu'n ymwneud hefyd â sefydliadau cenedlaethol Cymreig, gan gynnwys gweithredu fel Comisiynydd i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru rhwng 2001-11 a Chadeirydd Pwyllgor Hanes a'r Gyfraith Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru. Gwasanaethodd hefyd fel Llywydd Cymdeithas Archeolegol y Cambrian a Chymdeithas Hynafiaethwyr Môn.

I gydnabod arbenigedd Yr Athro Carr a'i gyfraniad academaidd parhaus, yn fuan wedi'i sefydlu fe wnaeth Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ei enwebu'n un o bedwar Cymrawd Ymchwil er Anrhydedd SYYC. Mae ei ymchwil ar yr uchelwyr a datblygiad ystadau Cymreig yn ystod yr oesoedd canol diweddar yn sail i lawer o genhadaeth SYYC, sef gweithredu fel canolfan ymchwil genedlaethol i hyrwyddo dealltwriaeth o hanes, diwylliannau a thirweddau Cymru, trwy brism ystadau a'u harchifau. Yn ddi-os bydd ei gyhoeddiad diweddar *The Gentry of North Wales in the Later Middle Ages* (2017) yn waith arhosol fel y cyhoeddiad amlycaf ar y pwnc a bydd yn ysbrydoliaeth i brojectau ymchwil pellach am flynyddoedd i ddod.

Roeddem yn hynod falch bod Tony wedi gallu siarad yn y gynhadledd 'Spheres of Influence' a drefnwyd gennym gyda Chymdeithas Hynafiaethwyr Môn ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ym Mhlas Cadnant ym mis Chwefror 2018; ac roedd yn bleser gwirioneddol gweld Tony yn sgwrsio â Daniel Huws a Maredudd ap Huw yn sesiwn gloi ein cynhadledd 'Llawysgrifau Mostyn' yn y Llyfrgell Genedlaethol yr hydref diwethaf.

Bydd gwaith Tony yn parhau i ysbrydoli datblygiad Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, ac ysgolheictod Gymreig yn gyffredinol, am flynyddoedd i ddod. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Glenda a'i theulu.



### DILYNWCH NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

I gael y newyddion diweddaraf am ein hymchwil, digwyddiadau, projectau, ac am bopeth yn ymwneud ag ystadau a phlastai Cymru, dilynwch ni ar Twitter a Facebook:

Twitter @YstadauCymru #ISWE

Facebook: https://www.facebook.com/

### CLODDIADAU ARCHEOLEGOL YNG NGHASTELL Y WAUN

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ymuno ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys (CPAT) a phartneriaid cymunedol i gynnal rhaglen o gloddiadau ar dir Castell y Waun. Mae SYYC yn dilyn y datblygiadau hyn gyda diddordeb; gobeithiwn y bydd y cloddiadau yn helaethu ein dealltwriaeth o dirwedd hanesyddol y castell, yn enwedig ei berthynas â Chlawdd Offa.

TŴR MARCWIS
ANGLESEY COLUMN

## YMDRECHION I ADFER TŴR MARCWIS

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch o gefnogi ymdrechion i adfer ac ailagor Tŵr Marcwis. Codwyd y golofn restredig Gradd II* yn dilyn Brwydr Waterloo i anrhydeddu Henry William Paget, yn ddiweddarach Ardalydd 1af Môn, a gollodd ei goes yn ystod y frwydr.

Mae'r golofn, a godwyd yn agos at dŷ Paget ym Mhlas Newydd, yn un o nodweddion eiconig Ynys Môn, ac yn rhan amlwg o'r tirlun a glannau'r Fenai.

Mae Ymddiriedolaeth Tŵr Marcwis yn gweithio i ailagor y safle a rhoi dehongliad gwell o'i bwysigrwydd treftadaeth. Mae Peter Crosby, myfyriwr Hanes ym Mangor, wedi bod yn gweithio gyda SYYC a'r Ymddiriedolaeth i ysgrifennu adroddiad manwl ar hanes adeiladu'r golofn. Cefnogir y project gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

I ddarganfod mwy ewch i https://www.angleseycolumn.com/.



## CYFARWYDDWR GŴYL GREGYNOG YN DERBYN CYMRODORIAETH ER ANRHYDEDD

Llongyfarchiadau i Dr. Rhian Davies a dderbyniodd Gymrodoriaeth er Anrhydedd gan Brifysgol Bangor ym mis Gorffennaf 2019. Rhian yw un o brif haneswyr cerddoriaeth Cymru a thros y blynyddoedd diwethaf bu'n Gyfarwyddwr Artistig yr Ŵyl Gerdd fawr ei bri a gynhelir yng Ngregynog.

Teitl yr ŵyl eleni, a fu'n llwyddiant ysgubol unwaith eto, oedd *Gweledigaeth / Vision* . Ei nod oedd dathlu gweledigaeth y teulu Davies - Gwendoline a Margaret Davies o Gregynog, a'u brawd David, Y Barwn Davies 1af o Landinam - am fyd gwell wedi'i seilio ar ddiwylliant a heddwch yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae Rhian yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol ISWE gan gyfrannu ei harbenigedd ar dreftadaeth gerddorol gyfoethog Cymru, a oedd yn gymaint rhan o fywyd ei phlastai a'i hystadau.



## PROJECT ENWAU LLEOEDD CYMRU

Mae'r CBHC yn parhau i wneud cynnydd da gyda'i ymdrechion arloesol i greu rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol Cymru. Nod y rhestr, a awdurdodir gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o etifeddiaeth gyfoethog enwau lleoedd yng Nghymru ac annog parhau i ddefnyddio'r elfennau pwysig hyn o'n treftadaeth leol a chenedlaethol. Mae SYYC yn cefnogi'r project yn frwd.

Gellir mynd at y rhestr yma: https://historicplacenames.rcahmw.gov.uk/

## CANOLFAN SYR WILLIAM ROBERTS AR DDEFNYDDIO TIR YN GYNALIADWY

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi sefydlu canolfan ymchwil newydd ym Mhrifysgol Bangor. Cyllidir y ganolfan newydd gan waddol ac mae'n rhoi fframwaith a fforwm i ymdrin â chwestiynau hollbwysig yn ymwneud â dyfodol defnydd tir, rheolaeth a chynaliadwyedd. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu perthynas gref gyda'r ganolfan.

Am ragor o wybodaeth ewch i http://swrc.bangor.ac.uk/.

## RHESTR FER COEDEN GYMREIG Y FLWYDDYN

Yn ddiweddar, mae Coed Cadw Cymru wedi rhyddhau ei restr fer ar gyfer Coeden Gymreig y Flwyddyn 2019. Rydym yn falch iawn o weld un o'r coed Castanwydden Bêr ym Mharc Pont-y-pŵl ymhlith yr enwebiadau. Roedd coed fel y rhain yn nodweddion pwysig mewn tirweddau ystadau. Mae'r rhestr lawn o enwebiadau i'w gweld yma:

https://www.woodlandtrust.org.uk/visiting-woods/vote-tree-of-the-year-2019/wales/

# NEWYDDION

## ADNODDAU PENNANT AR-LEIN

Roedd 'Teithwyr Chwilfrydig' yn broject 4 blynedd a gyllidwyd gan yr AHRC ac a gynhaliwyd o fis Medi 2014 dan arweinyddiaeth Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru (CAWCS) a Phrifysgol Glasgow.



Roedd yn ymdrin â disgrifiadau o deithiau i Gymru a'r Alban yn y cyfnod Rhamantaidd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y naturiaethwr a'r hynafiaethydd Thomas Pennant (1726-1798) o Downing yn Sir y Fflint, y bu ei *Tours* cyhoeddedig o'r ddwy wlad yn gymaint o gyfrwng i ddeffro diddordeb y cyhoedd yn ardaloedd 'ymylol' Prydain. Mae'r wefan (http://curioustravellers.ac.uk/) a gynhyrchwyd gan dîm y project yn cynnwys cyfoeth o adnoddau'n ymwneud â Pennant rydym yn sicr fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr y cylchlythyr hwn.

## TREFTADAETH TWRISTIAETH I OLEUO PROFIAD YMWELWYR Y DYFODOL

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol, wedi dechrau ar broject uchelgeisiol i ennyn diddordeb cymunedau lleol ac ymwelwyr yn nhreftadaeth Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth Byd Pontcysyllte.

Thema 'Ein Tirlun Darluniadwy' yw'r teithiau sydd wedi bod ac sy'n parhau i fod yn nodwedd o'r ardal a rennir gan gamlas Llangollen, A5 Telford ac Afon Dyfrdwy. Mae ymwelwyr wedi cael eu hysbrydoli mewn celf a barddoniaeth gan y dyffryn hardd hwn ers canrifoedd, a heddiw mae'n parhau i ddenu twristiaid i chwilio am y cain a'r dyrchafedig.

Mae'r project yn cynnwys themâu pwysig yn ymwneud â dylanwad ystadau lleol, gan gynnwys gwibdeithiau Syr Watkin Williams-Wynn yn 1771 o amgylch gogledd Cymru, yng nghwmni'r artist Paul Sandby; y tirlun prydferth a geir yn ardal abaty Glyn y Groes a Cholofn Eliseg ar ystâd Trevor Hall, a Chastell Dinas Brân gerllaw; bywydau a diddordebau Eleanor Butler a Sarah Ponsonby, 'Merched Llangollen', a'u cartref yn Plas Newydd; a adeileddau o bwys mewn peirianneg fel traphont Pontcysyllte a Phont Gadwyn Llangollen.



## YMGYRCH I DYNNU LLUNIAU O ADEILADAU RHESTREDIG CYMREIG

O eglwysi, henebion a gweithfeydd diwydiannol i adeiladau fferm, tai, ysbytai ac ysgolion - mae cymaint o adeiladau rhestredig yng Nghymru yn gysylltiedig â hanes ystadau. Yn ddiweddar, mae Wikimedia Commons wedi lansio ymgyrch i gasglu ffotograffau o bob adeilad rhestredig yng Nghymru. I gymryd rhan, defnyddiwch y map yn https://tools.wmflabs.org/wlmuk/#/ i ddod o hyd i adeiladau rhestredig yn eich ardal chi, tynnwch ychydig o luniau, ac yna eu huwchlwytho i'r wefan.

## LLIFOGYDD YN PARHAU I FYGWTH DYFODOL GWYDIR

Mae ISWE yn parhau i bryderu am ddyfodol Gwydir, gan fod cyfres o lifogydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi achosi difrod sylweddol i'r dirwedd hanesyddol o amgylch y tŷ a nifer o goed hynafol. Er fod tîm ymroddedig o wirfoddolwyr wedi adeiladu wal dros dro o fagiau tywod, mae pryderon bod adeiladwaith yr adeilad hefyd yn wynebu risg gynyddol.

Gwydir yw un o adeiladau pwysicaf Cymru. Pan oedd yn eiddo i'r Wynniaid roedd yn safle gwleidyddol a diwylliannol allweddol ac mae ei hanes yn hollbwysig i ddeall Cymru'r unfed a'r ail ganrif ar bymtheg a'i pherthynas â'r wladwriaeth Duduraidd a Stiwartaidd a'r byd ehangach.



### THOMAS RICHARDS

Dyma Thomas Richards, 'Doc Tom' (1878-1962), y Llyfrgellydd a sefydlodd Prifysgol Bangor fel man adneuo ar gyfer dwsinau o gasgliadau archifau a llawysgrifau ystadau gogledd Cymru. Mae ein gwaith yn ISWE yn adeiladu ar ei etifeddiaeth.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# YMCHWIL & PHROSIECTAU

## BANGOR YN CYNNAL GWEITHDY AR BWNC Y TIR

Mae ISWE yn hynod falch o gydweithio â'r Centre for the Study of Irish Country Houses and Estates a'r Centre for Scotland's Land Futures ar gyfrol newydd sy'n canolbwyntio ar Bwnc y Tir ym Mhrydain ac Iwerddon o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd y presennol. Yng Nghymru, arweiniodd hyn at benodi'r Comisiwn Brenhinol ar Bwnc y Tir yng Nghymru a Sir Fynwy, a fu'n gweithredu yn y 1890au, gan gasglu gwybodaeth helaeth am y ffordd roedd ystadau'n cael eu gweithredu, rhenti a'r berthynas rhwng tirfeddianwyr a thenantiaid.

Ym Mehefin roedd ISWE yn falch o gynnal gweithdy arbennig ym Mangor, a ddaeth â chydweithwyr o Loegr, Iwerddon, yr Alban a Chymru ynghyd i drafod cyfraniadau i'r gyfrol, a gaiff ei chyd-olygu gan Dr. Annie Tindley (Newcastle), Dr. Tony McCarthy (Maynooth) a Dr. Shaun Evans (Bangor).



## HANES MAES MYNAN - LLYS, PLASTY AC YSTAD

Mae Maes Mynan, sydd ar ffin Sir Ddinbych a Sir y Fflint ger tref Caerwys, yn safle o gryn ddirgelwch yn hanes Cymru. Dros haf 2019 mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint ac *Acorn Leisure* yn ymchwilio i hanes y safle. Prynwyd rhan o'r hen ystâd, sydd â golygfeydd ysblennydd o Foel y Parc, yn ddiweddar ac mae'n cael ei thrawsnewid yn barc gwyliau. Mae perchnogion y safle yn awyddus i sicrhau bod hanes a diwylliant Maes Mynan yn tywys y modd y caiff y parc ei ddatblygu a'i hyrwyddo, gyda golwg ar greu profiad ymwelwyr difyr, unigryw a dilys i'r rhan hon o Gymru. Agorwyd y parc yn ffurfiol gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas ym mis Medi 2019 a chyflwynwyd copi iddo o adroddiad Dr. Shaun Evans am hanes y safle. Roedd Maes Mynan bron yn sicr yn un o lysoedd tywysogion Gwynedd a thrafodwyd y dynodiad hwn, ynghyd ag agweddau eraill ar ei dreftadaeth gyfoethog, yn ystod y lansiad.



Bydd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn parhau i weithio gyda Chyngor Sir y Fflint, *Acorn Leisure* a phartneriaid eraill i archwilio i gyfleoedd ar groesffordd hanes, treftadaeth, twristiaeth a datblygiad economaidd gwledig.

## GWAITH RHAGOROL GAN INTERNIAID ISRADDEDIG!

Yn ystod hanner cyntaf 2019 ehangwyd tîm Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru i gynnwys tri intern israddedig a hynny diolch i gyllid gan Gynllun Interniaeth Israddedig gwych Prifysgol Bangor, sy'n cynnig cyfleoedd datblygu gyrfa cyflogedig i fyfyrwyr. Dyfarnwyd tri phroject i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru fel rhan o'r cynllun, a Laura Patari, Peter Crosby a Jacob Parry oedd yr ymgeiswyr llwyddiannus am y swyddi hynny.

Gweithiodd Laura, myfyriwr trydedd flwyddyn o'r Ffindir sy'n astudio Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, gydag Archifau Prifysgol Bangor ar gasgliad newydd o gofnodion a dderbyniwyd gan ystâd Plas Newydd, Ynys Môn, o'r enw 'Papurau Paget'. Mae'r casgliad yn cynnwys chwe chyfres, sy'n taflu goleuni ar fywydau, diddordebau a dylanwadau chwech o drigolion Plas Newydd rhwng y 19eg a'r 20fed ganrif trwy gasgliadau o ffotograffau, llyfrau lloffion, cyfnodolion, bwndeli o lythyrau, toriadau o bapurau newydd, ynghyd ag amrywiol ddogfennau ariannol a gweinyddol. Bu Laura'n cynorthwyo'r Archifdy i dderbyn y deunydd, yn ogystal â rheoli'r gwaith o'i ail-becynnu ynghyd â gwaith cadwraeth syml, didoli a rhestru, a digideiddio'r casgliad.



Gweithiodd Peter Crosby, myfyriwr Hanes, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Tŵr Marcwis i ymchwilio i hanes adeiladu Tŵr Marcwis Ynys Môn ar lannau'r Fenai ac ysgrifennu adroddiad manwl amdano. Bydd ei waith rhagorol yn awr yn cyfrannu at ddehongliad o dreftadaeth yr heneb, rhan allweddol o broject i adfer y tŵr gyda chymorth cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Treuliodd Jacob Parry, myfyriwr Hanes arall, gryn amser yn ymchwilio i hanes cymhleth hen ystâd Treborth Isaf, sydd bellach yn sylfaen i Ardd Fotaneg Treborth Prifysgol Bangor. Ymchwiliodd Jacob i hanes perchnogaeth yr ystâd, ac roedd ganddo ddiddordeb arbennig yn y ffordd y cafodd y dirwedd ei rheoli a'i defnyddio dros y canrifoedd. Mae ei adroddiad yn adnodd anhepgor i'r Ardd.

Llongyfarchiadau a diolch i'r tri myfyriwr am eu gwaith arbennig dros gyfnod yr interniaethau!



# YMCHWIL & PHROSIECTAU

## PWY YW YMCHWILWYR DOETHURIAETH ISWE?

Mae ein hymchwilwyr doethuriaeth yn rhan hanfodol o'n cenhadaeth i ddeall yn gliriach hanesion, diwylliant a thirweddau Cymru ac, yn benodol, effeithiau a dylanwadau ystadau. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi llwyddo i ddenu nifer o ymchwilwyr disglair, brwdfrydig i ISWE sydd wedi dechrau ar eu hastudiaethau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Bangor. Mae pob un wedi cytuno'n garedig i rannu amlinelliad o'r gwaith cyffrous y maent yn ei wneud gyda chi, y darllenwyr.

**Sadie Jarrett**

*Salsbriaid Rhug a Bachymbyd: Teulu Uchelwrol Cymreig, c.1475-c.1660*



Mae ymchwil Sadie yn edrych ar Salsbriaid Rhug a Bachymbyd, teulu uchelwrol Cymreig yn y cyfnod modern cynnar, o c.1475-c.1660. Yn ei thesis, mae Sadie yn asesu trawsnewidiad y Salsbriaid o ymsefydlwyr Seisnig o ddiwedd yr oesoedd canol i deulu uchelwrol Cymreig modern cynnar. O ganlyniad, mae ganddi ddiddordeb arbennig yn hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ddiwedd yr oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar, ac mae'n arbennig o awyddus i ddatblygu'r ymchwil a wnaed eisoes ar ferched bonheddig yn y Gymru fodern gynnar. Mae Sadie hefyd yn gosod y teulu Salesbury yn eu cyd-destun ehangach ym Mhrydain, gan ganolbwyntio ar eu hymwneud â llywodraeth ganolog a'u rhwydwaith helaeth o gysylltiadau ledled Cymru a Lloegr. Mae ymchwil Sadie yn rhyngddisgyblaethol ei natur gan ddefnyddio casgliadau o bapurau'r ystadau, gohebiaeth deuluol, barddoniaeth fawl, cofnodion cyfreithiol, a diwylliant gweledol a materol, gan ddefnyddio ffynonellau Saesneg, Cymraeg a Lladin yn bennaf. Astudiodd Sadie Hanes ym Mhrifysgol Caergrawnt ac mae ganddi radd Meistr mewn Cadwraeth Hanesyddol o Brifysgol Oxford Brookes.

Noddir efrydiaeth Sadie yn hael gan ystâd Rhug.

**Meinir Moncrieffe**

*Delwedd a Statws: Hunan-ddelwedd yr Uchelwr Modern Cynnar*



Ni fyddai unrhyw ystyriaeth o Ogledd Cymru yn ystod y cyfnod modern cynnar yn gyflawn heb sôn am deulu Wynn o Wydir, a oedd yn ffigurau amlwg yn y meysydd gwleidyddol a diwylliannol. Gan ddechrau o safbwynt celf hanesyddol ac astudiaethau Celtaidd, nod yr ymchwiliad hwn yw defnyddio dull amlddisgyblaethol i roi dewisiadau a wnaed gan aelodau'r teulu yn eu cyd-destun wrth lunio proffil cyhoeddus addas i uchelwr o Gyfnod y Dadeni.

Y dyddiau hyn, pan mae cymaint o ymwybyddiaeth o rym a dylanwad y cyfryngau, mae pobl yn gyfarwydd â'r broses o lunio proffil personol, gan ddewis pa agweddau ar eu personoliaethau a'u bywydau preifat i'w harddangos gerbron y byd. Gall hyn ymddangos yn gysyniad modern. Fodd bynnag, fe wnaeth y llu o newidiadau gwleidyddol, crefyddol a diwylliannol yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg alluogi i bobl gefnog addasu a llywio eu delwedd gyhoeddus. Gellid gwneud dewisiadau ar sail profiadau newydd a oedd wedi cefnu ar y ffiniau traddodiadol a osodwyd gan draddodiadau cymdeithasol a diwylliannol y gorffennol. Gadawodd y Wynniaid gasgliad helaeth o bapurau personol a llawysgrifau sy'n gwneud y teulu'n astudiaeth achos ddelfrydol ar gyfer y broses o deuluoedd yn llunio eu delwedd eu hunain yng Nghymru yn y cyfnod hwn.

**Kayla Jones**

Mae Kayla Jones yn fyfyriwr PhD ail flwyddyn gyda ISWE, ac mae ei hymchwil yn canolbwyntio'n bennaf ar ystâd y Penrhyn. Mae ei phroject amlddisgyblaethol yn edrych ar orffennol, presennol a dyfodol yr ystâd, trwy agweddau ar hanes, treftadaeth a thwristiaeth. Yn ei hymchwil mae Kayla yn defnyddio methodoleg wedi'i seilio ar ymarfer, sy'n cynnwys creu arteffact, sef podlediad, sy'n edrych ar naratif aml-haenog o ystâd y Penrhyn. Bydd pob pennod o'r podlediad yn edrych ar wahanol agweddau ar gefndir yr ystâd, o hanes cynnar, pensaernïaeth, llechi, hunaniaeth Gymreig a dyfodol yr ystâd.

Roedd blwyddyn gyntaf ymchwil Kayla yn canolbwyntio ar ddadansoddiad testunol o arweinlyfrau yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i Gastell Penrhyn rhwng 1955-2006. Nawr, yn seiliedig ar ei dulliau ymchwil blaenorol, mae'n anelu at greu dull amlbwrpas, cyfoes a phoblogaidd i ymwelwyr ddysgu am hanes cymhleth yr ystâd, trwy academyddion arbenigol a lleisiau lleol. Trwy'r project hwn, mae'n gobeithio ateb y cwestiwn, sef sut y gellir defnyddio podlediadau i gyfleu naratif aml-haenog ystâd Gymreig?


Mae gan Kayla radd BA (Anrh) mewn Ysgrifennu Creadigol a Phroffesiynol a gradd Meistr yn y Celfyddydau mewn Ymarfer Creadigol o Brifysgol Bangor. Mae ei hymchwil flaenorol wedi edrych ar ysgrifennu traddodiadol am deithio, blogiau teithio ac ysgrifennu ar gyfer twristiaeth. Yn wreiddiol o Ogledd Carolina, mae Kayla wedi byw yng Ngogledd Cymru ers 6 blynedd bellach ac wrth ei bodd yn ei chartref newydd yma.



Cefnogir doethuriaeth Kayla gan Gwmni'r Brethynwyr.

**<u>Mathew Rowland</u>**

Mae fy ymchwil PhD yn ceisio ymchwilio, deall a dadansoddi'r ffordd y dehonglir plastai yng Nghymru. Ar hyn o bryd, rydw i bron â gorffen blwyddyn gyntaf gynhyrchiol o ymchwil. Rwyf wedi gwneud astudiaeth o'r llenyddiaeth bresennol sy'n berthnasol i'm pwnc er mwyn arwain a llywio gweddill fy ymchwil. O ganlyniad i hyn, rwy'n rhannu fy ymchwil yn bedair adran glir, gan nodi pedwar math gwahanol o blasty modern, gyda phob un o'r rhain yn cael adran o'm thesis PhD wedi'i neilltuo i'r ymchwil yn ymwneud â'r ffordd y cânt eu dehongli. Archwilir themâu fel dylanwadau a chymhellion dehongli, dulliau dehongli, pwysigrwydd treftadaeth a marchnata safle yn achos pob un o'r pedair adran. Rwyf wedi nodi adfeilion, atyniadau treftadaeth, eiddo masnachol, ac eiddo preifat fel y pedwar math o blasty modern y byddaf yn ymchwilio iddynt, gan gyfeirio'n sylweddol at amrywiaeth o astudiaethau achos yr wyf wedi dechrau eu llunio.




Mae dyfodol plastai yng Nghymru wedi cael ei fygwth yn gyson dros y degawdau diwethaf. Wrth ymchwilio i'r ffordd y dehonglir plastai yng Nghymru heddiw, a deall eu harwyddocâd, nod yr ymchwil PhD hon yw cyfrannu at ddiogelu'r safleoedd hyn yn y dyfodol.

Mae gan Matthew ddwy ysgoloriaeth o Gronfa Etifeddiaeth Y Werin.


**<u>Mary Oldham</u>**

Mae Plas Gregynog, cyn ganolfan gynadledda Prifysgol Cymru lle rwyf wedi bod yn Llyfrgellydd ers blynyddoedd lawer, yn enwog yng Nghymru am ei gysylltiad â'r casglwyr celf, Gwendoline a Margaret Davies, a llyfrau cain Gwasg Gregynog. Yn y 1920au a'r 30au daeth i amlygrwydd hefyd fel canolfan ddiwylliannol a man i drafod materion addysgol, cymdeithasol a gwleidyddol.



Yr hyn sy'n llai hysbys yw mai Gregynog oedd y drydedd ystâd diriog fwyaf yn Sir Drefaldwyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (ar ôl Wynnstay a Powis), gyda'i gwreiddiau'n mynd yn ôl i'r 1450au. Roedd ei pherchnogion ymhlith tirfeddianwyr amlycaf (a chymeriadau nodedig) y sir. Mae swyddogaeth merched yn olyniaeth yr ystâd, natur drawsffiniol yr ystâd, a dylanwad gwleidyddol y tirfeddianwyr (Chwigiaid), ymhlith y themâu a gaiff sylw yn fy nhraethawd ymchwil, *Gregynog 1750-1900: Social and Cultural Relations, Continuity and Change on a Montgomeryshire Estate*.

Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i ddilyn fy niddordeb yn 'hen Gregynog' - credaf fod gan ei hanes lawer i'w gyfrannu at stori ystadau tiriog Cymru a gwaith SYYC.


ABRIDGED PARTICULARS
(Subject to Alterations).

Greg-y-Nog Estate

NEWTOWN,

MONTGOMERYSHIRE.

For Sale by Auction,
28th, 29th, 30th and 31st
OCTOBER, 1913
At the Town Hall, Newtown.

Messrs. CAMERON, KEMM & Co.,

W. SCOTT OWEN, Esq.,

Messrs. MILLAR, SON & Co.,

## CEFNOGI EIN CENHADAETH

Ers ei sefydlu, mae'r Sefydliad wedi elwa ar gefnogaeth ac anogaeth gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion.

Mae'r Sefydliad yn datblygu hanes cryf o sicrhau grantiau ymchwil a ariennir o ffynonellau cyhoeddus; ond o'r cychwyn cyntaf mae cyllid o ffynonellau preifat hefyd wedi bod yn rhan hanfodol o weithrediadau'r Sefydliad.

Mewn ymateb i'r diddordeb sylweddol yng ngwaith y Sefydliad, sefydlwyd Cronfa Waddol bwrpasol i weithredu fel ffocws ar gyfer cefnogaeth ddyngarol a rhoddion preifat. Bydd y gronfa hon yn sail i swyddogaethau craidd y Sefydliad, gan sicrhau ei fod yn gallu gwneud cyfraniadau parhaol i fywyd diwylliannol a deallusol Cymru.

Bydd yr holl gefnogaeth ddyngarol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r hyn y gall y Sefydliad ei gyflawni, ac yn chwarae rhan sylweddol yn ei gynaliadwyedd a'i lwyddiant hirdymor.

I drafod rhoddion, neu i wneud rhodd trwy siec, cerdyn credyd neu Ddebyd Uniongyrchol, cysylltwch â:

**E-bost - development@bangor.ac.uk**

**Ffôn - +44 (0)1248 382004**

Gellir gwneud rhoddion fel un taliad neu fel cyfraniad blynyddol. Mae Prifysgol Bangor yn elusen gofrestredig (1141565).

***Llawer o ddiolch am eich cymorth.***

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## YMCHWIL & PHROSIECTAU

### BYWYD A DYLANWAD Y FONESIG AUGUSTA MOSTYN (1830-1912)

Mae'n bleser gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru gyhoeddi project ymchwil a chatalogio newydd, mewn partneriaeth ag Ystadau'r Mostyn ac Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor, a fydd yn esgor ar gatalogio ac ymchwilio i bapurau Augusta Mostyn am y tro cyntaf.



Yn 1855 priododd Henrietta Augusta Nevill â Thomas Edward Mostyn Lloyd-Mostyn (1830-1861), mab ac etifedd yr ail Farwn Mostyn. Ym mis Mai 1861 gwnaed hi'n wraig weddw pan fu farw ei gŵr o'r ddarfodedigaeth, a gadawyd hi i fagu ei dau fab ifanc a chysegru ei bywyd i warchod etifeddiaeth yr hynaf, Llewellyn Nevill Vaughan Lloyd-Mostyn (1856-1929), a fyddai'n olynu yn y pen draw fel trydydd Barwn Mostyn ar farwolaeth ei daid yn 1884. Dibynnai ei etifeddiaeth lwyddiannus ar ganfod ffordd o ddatrys dyledion difrifol y teulu. Er gwaethaf datblygiad parhaus tref Llandudno, roedd graddfa a chymhlethdod dyledion y teulu yn datblygu'n broblem ddifrifol. Roedd angen gwerthu tiroedd i leihau'r diffyg ond dadleuodd y Fonesig Augusta yn gryf yn erbyn gwerthu Llandudno am y byddai'n niweidiol i fuddiannau ei mab; fe'i hystyriai yn 'brif gonglfaen y teulu'. Chwaraeodd y Fonesig ran ganolog yn y gwaith o ddychwelyd y teulu i sefyllfa o sefydlogrwydd ariannol.

Yn 1879, yn dilyn adnewyddu Neuadd Gloddaith, dychwelodd yno i fyw, ac aros yno hyd ei marwolaeth yn 1912. Bu ei chyfraniad i ddatblygiad Llandudno a'r ardal yn aruthrol. Hi oedd yn gyfrifol am ariannu adeiladu Ysgol Bodafon yn 1872, ariannodd adeiladu Cylchdro'r Gogarth ym 1877 ac adeiladodd Eglwys yr Holl Saint (Deganwy) ym 1898 er anrhydedd i'w rhieni, gan gyfrannu hefyd at adeiladu Eglwys San Paul (Craig-y- Don). Goruchwyliodd sefydlu Oriel Mostyn (agorwyd yn 1902), gan ragnodi y dylid rhoi lle amlwg yno i arddangos gweithiau artistiaid benywaidd.

Dros y tair blynedd nesaf bydd Dr. Dinah Evans yn ymchwilio i ddwy gist o ohebiaeth, cyfrifon, dyddiaduron, derbynebau a phapurau cyfreithiol a roddwyd yn ddiweddar i Archifau Bangor o ofal Neuadd Mostyn. Fel rhan o'r project caiff y papurau eu trefnu a'u catalogio am y tro cyntaf dan oruchwyliaeth Elen Wyn Simpson, Archifydd y Brifysgol.



Mae'r project yn datblygu ar ddwy gainc o waith Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru; yn gyntaf arddangosfa Llawysgrifau'r Mostyn a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2018; a'r gynhadledd a gynhaliwyd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru mewn cydweithrediad ag Archif Menywod Cymru yn yr un flwyddyn, ar bwnc bywydau a phrofiadau menywod ar ystadau yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd yr ymchwil a'r catalog yn taflu goleuni newydd ar nifer o agweddau ar fywyd a dylanwad un o'r menywod mwyaf rhyfeddol yn hanes gogledd Cymru.

Diolch diffuant i'r Arglwydd Mostyn am ei gefnogaeth barhaus. Hoffem ddymuno pob dymuniad da i Dinah gyda'r project pwysig hwn.

# DIGWYDDIADAU

## DIGWYDDIADAU ARDDANGOS TREFTADAETH HENBLAS

Yn gynharach eleni roedd Dr Shaun Evans yn falch iawn o dderbyn gwahoddiad i agor arddangosfa newydd yn Amgueddfa Storiel, Bangor, ar fywyd Elizabeth Morgan (1705-73) o Henblas.



Yn ei sylwadau agoriadol, nododd Dr. Evans fod yr arddangosfa, a'r ymchwil gan Mary Gwynedd Jones sy'n sylfaen iddi, yn gwneud cyfraniadau pwysig i agenda ymchwil Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, ac yn taflu goleuni ar swyddogaeth ystâd gymharol fechan a'i phlas ym mywyd Cymru. Fel yn achos llawer o hanes Cymru, mae'r ffordd yr ysgrifennwyd am y bonedd yn draddodiadol wedi tueddu i 'adael allan' neu o leiaf fychanu rôl menywod. Roedd diwylliant cyfreithiol a chymdeithasol yr ystadau yn hynod o dadlinachol a phatriarchaidd; y pwyslais pennaf oedd trosglwyddo tir, dylanwad a grym i'r llinach, o'r tad i'r mab, am genedlaethau. Edrychid fel rheol ar bennaeth gwrywaidd y teulu fel y landlord a'r meistr, a wasanaethai mewn swyddi o gyfrifoldeb lleol ac efallai hyd yn oed fel yr aelod seneddol; ac enwau'r dynion hyn sydd yn frith drwy archifau'r ystadau. Serch hynny, ni olyga hyn nad oedd gan fenywod rym gweithredol a dylanwad y tu hwnt i'w rôl fel hwyluswyr y genhedlaeth nesaf yn achau'r teulu. Archwiliwyd i rôl a phrofiadau menywod ar ystadau tiriog yng Nghymru yn y gynhadledd a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ac Archif Menywod Cymru yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn 2018. Mae bywydau a chyfraniadau rhyfeddol menywod fel Catrin o Ferain, Arglwyddes Llanofer, Charlotte Guest, 'Merched Llangollen' ac Augusta Mostyn yn cael eu gwerthfawrogi fwyfwy fel rhannau pwysig o stori Cymru. Ond yr hyn a glywsom yn y gynhadledd 'Patrymau Patriarchaidd?', oedd yn cyd-daro â chanmlwyddiant rhoi'r bleidlais i fenywod, oedd rhaglen wych o bapurau ar sut y dylanwadodd boneddigesau llai adnabyddus ar gymdeithas, diwylliant, gwleidyddiaeth a thirwedd; fel tirfeddianwyr yn eu rhinwedd eu hunain, fel noddwyr, ac fel casglwyr, ysgrifenwyr, garddwyr ac artistiaid. Roedd menywod o bob statws cymdeithasol yn rhan annatod o fywyd ar ystadau tiriog. Mae arddangosfa Elizabeth Morgan yn Storiel yn hynod bwysig yn y cyd-destun hwn.

Elizabeth Davies oedd ei henw bedydd a ganed hi ym 1705, yn ferch i glerigwr a wasanaethai yn swyddi Henffordd ac Amwythig yn y Gororau, ei hun yn fab iau i deulu Davies o Gwysaney a Llanerch - un o'r teuluoedd bonedd amlycaf a mwyaf hir-sefydlog yn Sir y Fflint. Yn 1732 priododd Henry Morgan o Henblas, ystad gymharol fechan ond â phwysigrwydd lleol yn Llangristiolus, Ynys Môn. Mae'r arddangosfa a'r llyfryn cysylltiedig yn olrhain ei bywyd o'r pwynt hwn hyd at ei marwolaeth ym 1773. Mae'n gwneud hynny trwy gasgliad bach ond rhyfeddol o wrthrychau a ddygwyd ynghyd trwy ymchwil fanwl: ei phortread, ei ffrog briodas a phowlen goffa - pob un yn gyforiog o wybodaeth fywgraffyddol - ynghyd â dogfennau yn ei hysgrifen ei hun, gan gynnwys ei dyddiadur a'i llyfr cyfrifon. Mae'r ddwy eitem olaf hyn yn rhan o Lawysgrif Henblas sydd ym meddiant Archifau Prifysgol Bangor, sy'n frwd iawn eu cefnogaeth i'r project. Gyda'i gilydd, mae'r eitemau hyn yn creu darlun o fywyd Elizabeth Morgan - ei diddordebau a'i chymeriad, ei rôl fel boneddiges, ei pherthynas â gweision a chymdogion, ac yn arbennig ei gwaith yn datblygu ei gardd yn Henblas, a ddyluniwyd ac a reolwyd ganddi gyda gofal a medrusrwydd mawr.

Dangosir gan gofnodion ei dyddiadur a gwaddol ei gwaith fod ganddi rym sylweddol; mae ei llythrennau cyntaf yn ymddangos ochr yn ochr â rhai ei gŵr ar yr ysgubor ddyrnu fawr a adeiladwyd ganddynt ar yr ystad ym 1733. Roedd eu priodas yn bartneriaeth. Roedd hi'n addysgedig ac yn wybodus, yn weinyddwr a cheidwad cofnodion galluog; yn rheoli'r ardd, yr aelwyd a'r staff cysylltiedig yn ddiwyd - gan greu a siapio'r ardd a oedd yn rhan annatod o'r ystad, ac a feddai swyddogaethau ymarferol pwysig yn ogystal â bod yn symbol statws.


Mae arddangosfa Elizabeth Morgan yn hynod; ond mae'n werthfawr am ei bod yn cynrychioli ac yn taflu goleuni ar ddarlun llawer ehangach o fywyd y 18fed ganrif, a rôl menywod ar ystadau tiriog dros gannoedd o flynyddoedd.

Wrth gloi, nododd Dr. Evans ei bod yn braf gweld lansio project sy'n arwyddocaol o ran hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o orffennol Ynys Môn a Chymru. Llongyfarchodd Mary Gwynedd Jones, Emma Hobbins, y tîm yn Storiel a Changen Gwynedd o Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru ar lwyddiant rhyfeddol.

Mae'r arddangosfa ar agor tan 2 Tachwedd 2019







# DIGWYDDIADAU

## YMWELIAD YMDDIRIEDOLAETH Y CELFYDDYDAU ADDURNOL Â CHYMRU

Roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch iawn o groesawu Ymddiriedolaeth y Celfyddydau Addurnol i Gymru'r haf hwn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydliad dielw Americanaidd a sefydlwyd ym 1977 i hyrwyddo a meithrin gwerthfawrogiad ac astudiaeth o'r celfyddydau addurnol. Yn ystod eu hymweliad â gogledd Cymru bu Dr. Shaun Evans yn dywysydd arbenigol iddynt ar ymweliadau â Bodysgallen, Gwydir, Bodnant, Bodrhyddan, Mostyn a Phlas Newydd. Gwnaeth y grŵp hefyd fwynhau ymweliad arbennig â Phrifysgol Bangor, lle cawsant eu cyflwyno i rai o'r casgliadau yn Archifau'r Brifysgol. Roedd yr achlysur yn gyfle gwych i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru rannu ei waith â chynulleidfa ryngwladol; ac i hyrwyddo hanes, treftadaeth a diwylliant arbennig Cymru. Gobeithiwn y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dychwelyd i Gymru cyn bo hir!

## ARDDANGOSFA 'TU HWNT I'R CHWAREL' YN LLYFRGELL BETHESDA

Rhwng mis Mawrth a mis Mai eleni roeddem yn falch o gael y cyfle i gynnal ein harddangosfa dros dro 'Prosiect Penrhyn' yn Llyfrgell Bethesda. Cynhyrchwyd yr arddangosfa fel rhan o'n project Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn archwilio i fywydau a phrofiadau'r bobl a oedd yn byw ac yn gweithio ar ystad y Penrhyn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Mae'n dwyn ynghyd gofnodion o'r archifau a lluniau a dogfennau a gyflwynwyd gan aelodau'r cyhoedd; ac yn canolbwyntio ar themâu gan gynnwys tirwedd, ffermio, tai, gwaith, bywyd gwledig a phobl.

Roeddem yn falch o weithio gyda Phartneriaeth Ogwen i gynnal yr arddangosfa ym Methesda, a'i defnyddio fel cyfle i hyrwyddo'r cais am Statws Treftadaeth y Byd UNESCO i Dirweddau Llechi Gwynedd.

Gobeithio y caiff yr arddangosfa ei harddangos mewn lleoliadau eraill yn y cyffiniau dros y misoedd nesaf.

## CYNHADLEDD ABERHONDDU YN GOSOD AGENDA NEWYDD AR GYFER YMCHWIL I LYFRAU A LLAWYSGRIFAU

Roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch iawn o gefnogi'r gynhadledd 'Darllen, Ysgrifennu a Chasglu: Llyfrau a Llawysgrifau yng Nghymru, 1450-1850' yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu ym mis Ebrill. Nod y gynhadledd academaidd fawr hon oedd hyrwyddo ymchwil newydd i lyfrau a chasgliadau o lawysgrifau yng Nghymru ac roedd yn cynnwys rhaglen wych o sgyrsiau ac arddangosiadau.

Unwaith eto, amlygodd y rhaglen bwysigrwydd hir-sefydlog plastai a'u preswylwyr wrth ddeall treftadaeth lenyddol a diwylliannol Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i Dr Sarah Ward Clavier a Dr Mary Chadwick am drefnu digwyddiad oedd mor hynod ysgogol. Cynigiodd y gynhadledd fforwm gwych i rannu syniadau a thrafod projectau at y dyfodol.

## CYNHADLEDD FLYNYDDOL 2019:

## 'RICH IN THE REMAINS OF FORMER AGES'

Ddydd Sadwrn, 11 Mai 2019




Roeddem yn falch iawn o ymuno â Chlwb *Powysland* ar gyfer ein cynhadledd flynyddol yn 2019 yn archwilio i effeithiau ystadau ar hanes, diwylliant a thirweddau Sir Drefaldwyn, o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw.

Cynhaliwyd y gynhadledd yn Neuadd Gregynog, plasty a fu'n ganolog i un o ystadau mwyaf blaenllaw Sir Drefaldwyn, ac roedd y diwrnod yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau byr gan academyddion, gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth a haneswyr lleol.

Yn dilyn cyflwyniad gan Shaun Evans, bu David Stephenson yn trafod gwreiddiau canoloesol ystadau Sir Drefaldwyn, cyn i Melvin Humphreys draddodi hanes byr o 'godiad a chwymp' cymhleth rhai o'r prif deuluoedd rhwng 1550-1950. Yna i ddilyn cafwyd cyfres o astudiaethau achos teuluol, gyda Murray Chapman yn trafod Barwnig Powis yn yr 16eg ganrif a dechrau'r 17eg ganrif ac Emyr Williams yn egluro'r berthynas rhwng Llwydiarth ac ystad Wynnstay, 1700-1865. Ar ôl cinio siaradodd Liz Green o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am gynlluniau i ail-archwilio Casgliad Clive yng Nghastell Powis fel rhan o ffocws academaidd a threftadaeth ehangach ar drefedigaethedd a'r plasty; ac adroddodd Rhian Davies am hanes nawdd cerddorol Gwendoline a Margaret Davies yng Ngregynog mewn sgwrs dan y teitl 'Communicating loveliness to others'. Yna cynigiodd Bob Silvester ddadansoddiad o fapio ystadau a thirweddau yn nwyrain Sir Drefaldwyn, a thraddododd Mary Oldham, ymchwilydd doethuriaeth Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, grynodeb o'i harchwiliadau i rôl menywod yn olyniaeth Gregynog.

Roeddem wrth ein bodd o gael cynulleidfa mor fawr ac ymroddedig yno; diolch yn fawr i bawb a ddaeth ac a gymerodd ran yn y digwyddiad. Diolch hefyd yn ddiffuant i Glwb Powysland ac i Neuadd Gregynog am eu lletygarwch.

Y digwyddiad hwn oedd y diweddaraf mewn cyfres o gynadleddau blynyddol a drefnwyd gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol, sydd wedi dadansoddi dylanwadau'r ystadau tiriog ar lefel sirol. Cynhaliwyd digwyddiadau blaenorol ym Mhlas Cadnant (Ynys Môn, 2018), Penpont (Sir Frycheiniog, 2017), Neuadd Mostyn (Sir y Fflint, 2016), Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (Sir Gaerfyrddin, 2015) a Glan-llyn (Sir Feirionnydd, 2014).

## DARLITH FLYNYDDOL ARCHIFAU A CHASGLIADAU ARBENNIG PRIFYSGOL BANGOR 2019

### *PENRHOS: POWERFUL WOMEN AND THE CURIOUS TALE OF A KNIGHT, A LORD AND AN 'HONOURABLE*




Traddodwyd y ddarlith hon gan Dr Gareth Huws nos Fercher, 9 Hydref 2019.

Canolbwyntiai ei anerchiad ar ystad Penrhos yng Nghaergybi yn ystod y cyfnod 1760-1884. Man cychwyn Gareth Huws oedd y tair cenhedlaeth yn llinach uniongyrchol Syr John Thomas Stanley (yr Hynaf), ei fab Syr John Thomas Stanley (yr Iau ac, yn ddiweddarach, Barwn $1^{af}$ Stanley o Alderley) a mab yr Arglwydd Stanley, yr Anrhydeddus William Owen Stanley. Yn byw eu bywydau'n gyfochrog â'r tri thirfeddiannwr hyn ym Mhenrhos ac yn Alderley yn Sir Gaer, roedd rhai o fenywod mwyaf grymus y cyfnod, ac yn aml iawn roedd eu dylanwad yn llawer mwy na'r grym cyfreithiol gwrywaidd a draddodwyd i'w meibion a'u gwŷr o ganlyniad i'r ddau draddodiad plethedig o gyntaf-anedigaeth ac amodau cyfres o setliadau caeth.

Archwiliodd y ddarlith i'r tir llwyd rhwng hynafiaetheg a hanes a sut y gall astudiaeth agos o unigolion sy'n gysylltiedig ag ystad roi prawf ar gywirdeb cyffredinoliadau am gyfnodau hanesyddol ac, o dan rai amgylchiadau, cwestiynu eu cymhwysiad cyffredinol. Bu'r tair cenhedlaeth dan sylw yn ymwneud â Phenrhos am 120 mlynedd ac mae hyn yn cyfateb, oni bai am chwarter olaf y 'ganrif' honno, â'r hyn a eilw rhai haneswyr yn bedwaredd ganrif ar bymtheg 'hir', h.y. o esgyniad George III i'r orsedd hyd at ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd pum adran gydgysylltiedig i'r ddarlith: marwolaeth W.O. Stanley ac arwyddocâd y digwyddiad hwnnw i ystad Penrhos; priodas Margaret Owen, aeres ystadau Penrhos a Bodewryd, yn 1763; yr amgylchiadau arbennig sy'n ymwneud â setliad y briodas honno a'u heffaith ar yr etifeddiaeth; y portread o Syr John Thomas Stanley, yr Ieuengaf, fel esiampl o sut yr oedd perchnogion ystadau tiriog wedi esblygu o fod yn gwbl ddibynnol ar amaethyddiaeth fel eu prif ffynhonnell incwm i sefyllfa lle'r oedd diwydiant ac echdynnu mwynau a datblygu seilweithiau cenedlaethol yn brif ddiddordeb cynyddol ganddynt; bywyd ac amseroedd gwleidyddol W.O. Stanley - dyn a oedd wedi ei drwytho yn ideoleg Whigiaeth ond a orfodwyd i fabwysiadu moeseg y rhyddfrydiaeth newydd a ddaeth yn gymaint nodwedd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

## ISWE YN CEFNOGI DRYSAU AGORED

Gwych oedd gweld cymaint o dai ac eglwysi hanesyddol ar agor unwaith eto i'r cyhoedd ar gyfer rhaglen Drysau Agored Cadw eleni. Mae'r digwyddiad blynyddol yn gyfle gwych i ddysgu am hanes a diwylliannt Cymru ac archwilio iddynt, gan gynnwys effeithiau a dylanwadau'r ystadau tiriog.

Cymerodd y rhan fwyaf o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth y Tirnodau yng Nghymru ran yn y cynllun, yn ogystal â phlastai gwledig gan gynnwys Parc Iscoyd, Llancaiach Fawr, Hafodunos, Tretower Court, Gwaenynog, Abercamlais, Priordy Ewenny, Insole Court, Castell Cyfarthfa, Castell Talacharn, Aberglasney, Hafoty a llawer mwy.

Roedd Dr. Shaun Evans yn falch iawn o agor rhaglen Drysau Agored Dinbych gyda darlith arbennig ddydd Gwener, $27^{ain}$ Medi a oedd yn dwyn y teitl 'Dyffryn Clwyd: Welsh Renaissance Powerhouse, 1500-1650'.




## CANOLFAN YMCHWIL CYMRU

Roedd Cynhadledd Canolfan Ymchwil Cymru, a gynhaliwyd fis Mehefin 2019 yn faes ffrwythlon i ddau ymchwilydd doethurol craff o ISWE. Y cyntaf oedd Kayla Jones, sy'n ymchwilio i dreftadaeth a dehongliad Castell Penrhyn. Cyflwynodd bapur i brocio'r meddwl ar 'Hunaniaeth Gymreig mewn Arweinlyfrau: Arweinlyfrau Penrhyn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 1952-2009' gan ddefnyddio ffynonellau pwysig y mae haneswyr yn aml yn eu hanwybyddu. Roedd yr ail bapur gan Sadie Jarrett, sydd wedi ei thrwytho ei hun yn ystadau Edeyrnion. Traddododd ddarlith hynod ddiddorol ynghylch 'Elizabeth Salesbury o Bachymbyd: astudiaeth achos o foneddwraig fodern gynnar o Gymraes'. Mae ystod a dyfnder y ddau bapur yma'n dangos hyd a lled cyfraniad yr ôl-raddedigion hyn o ISWE at ysgolheictod Cymru ac at ein dealltwriaeth ninnau o ystadau Cymru.

## YMCHWIL O'R PENRHYN MEWN CYNHADLEDD AM BLASTAI

Bu'r ymchwilydd doethurol Kayla Jones yn rhan o dîm o Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a gymerodd ran yn y gynhadledd 'Reading the Country House' ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion fis Tachwedd 2018. Yn ei chynhadledd academaidd gyntaf, cyflwynodd Kayla bapur ar ei dadansoddiad o arweinlyfrau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol rhwng 1952-2009 ac mi gafodd dderbyniad brwd.

## ISWE YN SIAMBR Y SEREN

Yng Nghynhadledd fawr Siambr y Seren a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Durham fis Gorffennaf, bu cymaint â thri siaradwr o ISWE yn cyflwyno papurau. Cyfareddodd Sadie Jarrett, a'i hymchwiliadau i ystâd Rhug, y cynadleddwyr gyda'i darlith 'By Reason of her Sex and Widowhood: a Welsh gentlewoman in the Court of Star Chamber'. Dilynwyd hynny gan yr Athro Robin Grove-White a'r Dr. Gwilym Owen yn traddodi cyflwyniad meistrolgar ar y cyd ar 'The Star Chamber and Welsh Identity: political rivalries in 16th Anglesey'.

Hoffai ISWE longyfarch y tri am eu hymchwil manwl, eu cyflwyniadau hynod a'u parodrwydd i rannu eu hymchwil ar hanes Cymru â'r gymuned ysgolheigaidd ryngwladol.

# DIGWYDDIADAU

## DARLITH ARBENNIG YN YSTÂD RHUG

Roedd Sadie Jarrett, ymchwilydd doethurol ISWE, yn falch o gymryd rhan yng Ngŵyl y Fflam, digwyddiad treftadaeth a gynhaliwyd yng Nghorwen fis Medi. Mewn darlith arbennig soniodd Sadie am ei hymchwil i deulu Salesbury o'r Rhug a Bachymbyd, gan gynnwys eu cysylltiadau â'r tiroedd a fuasai gynt ym meddiant Owain Glyndŵr.

## GŴYL HANES BANGOR

Mae ISWE yn falch o gymryd rhan yng Ngŵyl Hanes y Pedair Gwlad ym Mhrifysgol Bangor ar 25[ed] a 26[ed] Hydref. Bydd yr Ŵyl yn arddangos ac yn archwilio hanesion unigryw a chyd-gysylltiedig Cymru, Iwerddon, yr Alban a Lloegr.

Gobeithiwn eich gweld yno!

## MERCHED AC EIDDO YN Y DDEUNAWFED GANRIF HIR

Roedd ISWE yn falch o fod yn bresennol a chymryd rhan mewn gweithdy undydd ar thema merched ac ystadau ym Mhrifysgol Warwick fis Mai 2019. Roedd y digwyddiad yn arwydd o'r diddordeb cynyddol sydd yn maes yma, a bu'n fodd arddangos pecyn ysbrydoledig o ymchwil gan ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfaoedd sydd o ddiddordeb mawr i ISWE.

Dilynodd y digwyddiad ein cynhadledd undydd ninnau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru fis Tachwedd 2018 o'r enw 'Patrymau Patriarchaidd? Swyddogaethau a phrofiadau merched ar ystadau tiriog Cymru

## TRAFOD PLASTAI YN Y GYNGRES GELTAIDD

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd Prifysgol Bangor y 15fed Cyngres Ryngwladol Astudiaethau Celtaidd, y cynulliad rhyngwladol mwyaf blaenllaw o ysgolheigion sy'n ymchwilio i ieithoedd, llenyddiaethau a thraddodiadau diwylliannol y bobloedd sy'n siarad ieithoedd Celtaidd.

Fel rhan o'r trafodion, roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch iawn o drefnu panel arbennig ar bwnc plastai yn Iwerddon, yr Alban a Chymru. Bwriad y panel oedd asesu i ba raddau y gwnaeth y plastai hyn a'u preswylwyr gefnogi ac ymroi i draddodiadau diwylliannol a ffurfiau o hunaniaeth gynhenid yn hytrach na'r label a roddir iddynt yn rhy aml o fod yn 'gilfachau o seisnigeiddio'.

Siaradodd Dr. Annie Tindley (Prifysgol Newcastle | *Centre for Scotland's Land Futures*) ar bersbectif yr Alban, a bu Dr. Ian d'Alton (Coleg y Drindod Dulyn, Prifysgol Dulyn) yn annerch ar blastai yn Iwerddon a Dr. Shaun Evans o Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ar Gymru.

***Bastions of anglicisation or protectors of the nation? The Scottish country house and cultural, linguistic and national identities from 1746***

Cadarnhaodd Annie Tindley fod llawer o hanesyddiaeth yr Alban ar bwnc y dosbarthiadau tiriog ac aristocrataidd, a'u plastai, yn dadlau eu bod ar flaen y gad yn y broses o seisnigeiddio o ganol y ddeunawfed ganrif ymlaen, gan hyrwyddo diwylliant a gwerthoedd Lloegr fel y grym dros foderniaeth. Er bod hyn yn wir i raddau, dadleuodd ei bod hefyd yn wir fod rhai teuluoedd a phlastai wedi hyrwyddo gweithgareddau a hunaniaethau hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol penodol gwbl 'Albanaidd' neu'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r 'Ucheldiroedd'. Dyluniwyd ac arddangoswyd claniau, tartanau, Gaeleg yr Alban a digwyddiadau hanesyddol Albanaidd ymhell cyn i'r Undeb ddod dan bwysau cynyddol ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Archwiliwyd y cydbwysedd cyfnewidiol hwn rhwng hunaniaeth Albanaidd a Phrydeinig hyd heddiw.

**'Costreli Lledrith': ai estron ynteu brodorol oedd tai mawr Iwerddon?**

Bu Ian d'Alton yn archwilio 'seicoleg' tai mawr Iwerddon ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed. Tybiai y gwelid y Tŷ Mawr yn Iwerddon yn gyffredinol megis gwarchodwr mewn tiriogaeth elyniaethus, a'r diriogaeth honno wedi'i meddiannu gan ddosbarth bonheddig a oedd wedi'i impio ar Iwerddon, ac nad oedd wedi gwreiddio'n ddigon dwfn. Roedd hynny'n trin y tŷ megis allanbeth, i Iwerddon ac i'r rhai a oedd yn byw ac yn troi o'i gwmpas ac oddi mewn iddo. Cymerodd yntau agwedd bur wahanol yn ei bapur. Defnyddiodd ffynonellau hanesyddol a llenyddol, i archwilio'r tŷ ei hun fel rhan organig o'r modd y gwelai'r boneddigion eu lle hwythau yn Iwerddon. Bu'n bwrw golwg ar y tŷ fel elfen ganolog o fyd diwylliannol y bonedd megis math o aelod parhaol o'r teulu. Bu'n archwilio'r modd y bu'r tŷ, fel ffurf ffisegol, fel symbol ac fel creadigaeth lenyddol, yn ffurfio ac yn cymedroli ymdeimlad bonedd Iwerddon o berthyn, o'u bro a'u hymwybyddiaeth genedlaethol - hyd yn oed os oedd yr ymwybyddiaeth genedlaethol honno, iddynt hwythau'n fath ar 'Brydeindod'.

**Adnabod y Cymry ym mhlastai gwledig Cymru**

Dechreuodd Shaun Evans ei bapur trwy gyfeirio at ddull Peter Mandler o gategoreiddio plastai Lloegr fel 'hanfod Seisnigrwydd' ac fel 'ymgorfforiad unigryw o'r cymeriad Seisnig'. Dadleuodd ei bod yn anodd defnyddio'r datganiadau hynny i ddisgrifio *plastai* Cymru. Prin yw'r rhai a fyddai'n gweld plastai Cymru fel 'hanfod Cymreictod'. Yn wir, o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen 'seisnigedig' oedd disgrifiad y wasg anghydffurfiol radical a dylanwadol o berchnogion y pwerdai hynny: Toriaid oeddent, Saesneg eu hiaith, Anglicaniaid a oedd gan mwyaf yn absennol. Roedd hyn yn cyferbynnu â'r ddelwedd ddelfrydol o'r *werin*, gwir geidwaid ymwybyddiaeth genedlaethol Cymru fel y gwelid yn eu hiaith, eu crefydd, eu gwleidyddiaeth a'u diwylliant. Fodd bynnag, dadleuai fod llawer o dirfeddianwyr yng Nghymru, er y cefndir gwleidyddol milain hwn, wedi cadw ymdeimlad clir o hunaniaeth Gymreig, y byddent yn parhau i'w harddel fel rhan bwysig o'u hunanddelwedd (ochr yn ochr ag ymlyniad wrth Brydeindod, ac yn wir Seisnigrwydd). Câi eu hunaniaeth Gymreig ei chyfleu a'i harddel fel arfer trwy gyfrwng cysyniadau o wladgarwch hynafol, a byddai'n elfen amlwg o ddiwylliant gweledol, materol a pherfformiadol plastai Cymru.

# ARCHIFAU & CHASGLIADAU

## NEWYDDION Y SECTOR ARCHIFAU

Rydym yn falch iawn bod Pedr ap Llwyd wedi'i benodi'n Brif Weithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn sgil ymddeoliad Linda Tomas. Mae Linda a Pedr wedi bod yn gefnogol iawn i ISWE, yn enwedig yn ystod rhaglen gydweithredol #Mostyn100 yn 2018. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn un o bartneriaid allweddol ISWE ac edrychwn ymlaen at gynnal perthynas agos ac adeiladol am flynyddoedd i ddod. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Linda a phob dymuniad da i Pedr wrth iddo gyflawni ei weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y Llyfrgell.

Mewn man arall yn y sector archifau, mae archifau Sir Ddinbych a Sir y Fflint wedi cyhoeddi cynigion gwych ar gyfer gwasanaeth archifau newydd ar y cyd. Bydd y ganolfan archifau arfaethedig yn yr Wyddgrug yn gaffaeliad mawr i'r gogledd ddwyrain, a bydd yn rhoi sicrwydd i ddwsinau o gasgliadau'r ystadau sydd ar hyn o bryd o dan gadw ym Mhenarlâg a Rhuthun.

Bu newidiadau sylweddol hefyd yn y de gydag ymddeoliad Tony Hopkins o Archifau Gwent ac mae Susan Edwards, Archifydd Morgannwg, hefyd ar fin ymddeol. Mae Tony a Susan wedi bod yn gefnogol iawn i'n hymdrechion i wneud archifau ystadau Cymru yn fwy hygyrch. Mae ISWE yn falch o glywed bod Sir Gaerfyrddin yn y broses o benodi Archifydd newydd i arwain ar reoli Archifau Sir Gaerfyrddin ar ei newydd wedd, sy'n cynnwys rhai casgliadau ystadau sylweddol iawn.

## CATALOGIO ARCHIF UN O YSTADAU MAWR SIR ABERTEIFI

Yn gynharach eleni roeddem yn falch iawn o glywed gan Hilary Peters yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru fod archif ystâd Gogerddan wedi'i chatalogio'n llawn bellach a gallwch ei harchwilio ar-lein (https://archives.library.wales/index.php/gogerddan-estate-records).

Roedd Gogerddan yn eiddo i deulu Pryce ac roedd yn un o ystadau tiriog amlycaf y gorllewin, ac mae cofnodion y casgliad yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd yr ugeinfed. Mae'r catalog yn cynnig adnodd gwych i ysgolheictod.



## RHIFYN ARBENNIG O ARCHIVES AND RECORDS

Roedd ISWE yn falch o chwarae rhan ganolog yn natblygiad rhifyn arbennig o'r cyfnodolyn *Archives and Records* ar bwnc 'archifau ystadau'. Golygwyd y rhifyn arbennig ar y cyd gan Dr. Shaun Evans, gyda'i gydweithwyr Dr. Julie Mathias a Dr. Sarah Higgins o Brifysgol Aberystwyth, ac mae'n cynnwys amrywiol erthyglau ar ddyfodol y casgliadau.

Mae'r rhifyn, sy'n cynnwys astudiaethau achos o bob rhan o Loegr, Iwerddon, yr Alban a Chymru, yn cynnwys erthygl am bartneriaeth ISWE ag Archifau Prifysgol Bangor; ac adroddiad ar ein project Pecyn Cymorth Casgliadau Ystadau.

Mae'r cyfnodolyn ar gael yma i aelodau o'r Gymdeithas Archifau a Chofnodion: https://www.tandfonline.com/toc/cjsa21/40/1

Archives & Records Association UK & Ireland


## ARDDANGOSFA'N RHOI LLE AMLWG I GOFRESTR HERODROL CASTELL LLWYDLO

Yn ddiweddar, agorodd Amgueddfa Sir Amwythig arddangosfa newydd sy'n canolbwyntio ar Gofrestr Castell Llwydlo. Cafodd y gofrestr achau herodrol ei pheintio ar orchymyn Syr Henry Sidney pan oedd yn Llywydd Cyngor Cymru a'r Gororau ym 1573, ac mae'n cynnwys arfbais perchnogion Castell Llwydlo, llywyddion y Cyngor a'r aelodau a benodwyd ym 1570.

Bydd yr arddangosfa ar agor tan ddydd Gwener, 3ydd Ionawr 2020.

## LLYFRAU O LYFRGELLOEDD PLASTAI SIR GAERFYRDDIN

Mae project gwirfoddol yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin sy'n ymchwilio ac yn catalogio llyfrgell Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin yn datgelu nifer o lyfrau a arferai fod yn rhan o lyfrgelloedd y plastai lleol. Mae'r casgliad yn cynnwys nifer o gatalogau gwerthu'r ystadau (gan gynnwys un Pantglas ym 1904 ac Aberglasney ym 1908) a ddefnyddid i ddewis llyfrau i'w prynu ar gyfer llyfrgell y Gymdeithas yn gynnar yn yr 20fed ganrif. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y project, dilynwch @AmgueddfaSirGar ar Twitter.



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# ARCHIFAU & CHASGLIADAU

## COFNODION YSTADAU YNG NGHASGLIAD CYFREITHIWR O GROESOSWALLT

Ar hyn o bryd mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn catalogio archif Messrs Longueville & Co o Groesoswallt. Bu'r cwmni cyfreithwyr, a sefydlwyd ym 1720, yn gweithredu ar ran nifer o deuluoedd nodedig ac ystadau mawr yn y gogledd ac yn Sir Amwythig, ac mae'r archif yn cynnwys cofnodion am Ystadau Frogyntyn, Castell y Waun, Hengwrt, Rhug, Nannau a Wynnstay. Does dim dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith ond roedd yr ystadau mor helaeth a dylanwadol fel y bydd yr ymchwilwyr yn awyddus i weld ffrwyth llafur y Llyfrgell Genedlaethol er mwyn deall y rôl a chwaraeodd y trafodion cyfreithiol yn natblygiad yr ystadau mawrion.

## UCHAFBWYNTIAU #ARCHIF30

Fis Ebrill heriodd Cymdeithas Archifau a Chofnodion yr Alban archifdai ledled y byd i rannu eu casgliadau rhyfeddol ar Twitter gan ddefnyddio'r hashnod #Archive30. Cymerodd archifau ledled Cymru ran yn yr ymgyrch, gan rannu eitemau o'u casgliadau ystadau. Postiodd Ceredigion fap o ystâd y Priordy yn Aberteifi; rhannodd Archifau Gorllewin Morgannwg lun o arolwg o arglwyddiaeth Gŵyr a wnaed ym 1764; a dangosodd Archifau Gwent lyfr cyffredin y tirfeddiannwr John Gwyn o Langwn o'r 17eg ganrif, sy'n cynnwys nodiadau ar ddulliau ffermio, tyfu ffrwythau, newyddion lleol, hanes y teulu a derbynebau meddygol.

## UCHELGAIS DDIWYLLIANNOL

Ariennir y project gan y Loteri Genedlaethol ac Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru a'r nod yw cefnogi pobl ifanc yng Nghymru sy'n awyddus i ennill profiad a sgiliau yn y sector treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r garfan nesaf o 33 o bobl ifanc wrthi'n cael eu recriwtio a byddant yn mynd ar leoliadau hyfforddi â thâl mewn gwahanol safleoedd ledled Cymru o fis Hydref 2019 ymlaen. Bydd pob hyfforddai'n treulio 12 mis mewn tri safle gwahanol sy'n ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol a byddant yn derbyn bwrsariaeth o £800 y mis. Bydd yr hyfforddeion yn gweithio tuag at gymhwyster (Lefel 2 NVQ mewn Treftadaeth Ddiwylliannol a weinyddir gan Goleg Caerdydd a'r Fro). Rhaid i'r hyfforddeion fod rhwng 18 a 24 oed, ddim mewn cyflogaeth, ac ni fyddant yn raddedigion. Mae saith rhanbarth ledled Cymru'n ymwneud â'r project.

Er mwyn sicrhau bod archifau'r ystadau dan gadw'n ddiogel ac ar gael i ymchwilwyr ac i'r cyhoedd, mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn cymryd rhan a'u bod yn ennill y sgiliau angenrheidiol i sicrhau bod yr archifau helaeth a chyfoethog a geir yng Nghymru ar gael yn etifeddiaeth am genedlaethau i ddod. Mae ISWE yn dymuno'r gorau i'r holl hyfforddeion at y dyfodol.

## DARGANFOD PLÂT LLYFR Y GYRN YN LLYFRGELL BANGOR




Diolch i waith ein cydweithiwr Dr. Michael Durrant (Darlithydd mewn Llenyddiaeth Fodern Gynnar) roeddem yn falch iawn o ddod o hyd i blât llyfr teulu Douglas o Gastell Gyrn yn Llanasa, Sir y Fflint, wedi'i ludo yn un o'n llyfrau yn Llyfrgell Prifysgol Bangor - a *Llyfr Gweddi Cyffredin Saesneg*o'r 17*eg ganrif*. Rydym yn awyddus iawn i ddarganfod faint o lyfrau eraill a arferai fod yn rhan o gasgliadau plastai Cymru a ddaeth i lyfrgell y brifysgol, ac, yn fwyaf diddorol, siwrneiau'r cyfrolau hynny. Mae angen gwneud llawer iawn o waith ar gatalogau gwerthu'r ystadau, gan gyfeirio'n benodol at y llyfrau sydd yn eu llyfrgelloedd. Pwy a'u prynodd? A gawsant eu gwasgaru'n llyfrau unigol neu a gadwyd nhw'n gasgliadau cyflawn?

A oes gan unrhyw ddarllenwyr straeon diddorol ynglŷn â dod o hyd i lyfrau o ystadau Cymru mewn llefydd annisgwyl (anarferol hyd yn oed)?

## YMWELIAD ARBENNIG GAN GANOLFAN ARCHIF YR IWERDDON

Fis Mehefin roedd yn bleser gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ac Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor groesawu Nicola Kelly ar leoliad Erasmus byr. Mae Nicola yn Archifydd yng Nghanolfan Archifau ac Ymchwil OPW-Maynooth yn Castletown House yn Iwerddon. Mae'n ystorfa arbenigol, a sefydlwyd yn 2008 i gasglu, cadw, hyrwyddo a sicrhau bod casgliadau archifol ymchwil mewn perthynas ag ystadau Iwerddon ar gael, ac mae llawer o'r stadau'n dal mewn meddiant preifat. Mae Nicola yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghanolfan Astudio Tai ac Ystadau Hanesyddol Iwerddon.



Roedd y lleoliad yn gyfle gwych i rannu ymarfer gorau ynghylch archifau, ymchwil sy'n seiliedig ar gasgliadau a dehongli treftadaeth a bu ymweliadau â Chastell Penrhyn, Amgueddfa Storiel a swyddfa stad Bodorgan.

Gobeithiwn ymweld â Nicola draw yn Iwerddon yn y dyfodol agos!


https://www.maynoothuniversity.ie/omarc

OMARC
Ionad Cartlainne agus Taighde Oifig na nOibreacha Poiblí – Ollscoil Mhá Nuad i Castletown
OPW-Maynooth University Archive and Research Centre Castletown House

# LLYFRAU

Adolygiadau gan Dr. Gareth Huws


***Rich Mountains of Lead: The Metal Mining Industry of Cwm Rheidiol and Ystumtuen***




Yn ystod hanner olaf y ddeunawfed ganrif, pan ildiodd y Goron ei hunig monopoli i hawliau ar fwynau, cododd cyfleoedd i dirfeddianwyr ddatblygu a buddsoddi mewn amrywiol brosesau mwyngloddio. Roedd llawer o ddiddordeb yn ardal Mynydd Llywernog a Phonterwyd yng Ngheredigion lle darganfuwyd dyddodion mwynau metel. Roedd y tir i'r gogledd o Afon Llywernog yn eiddo i ystâd Gogerddan, ac i'r de i'r afon roedd gan y teulu Lloyd Abertrinant, teulu Parry Llidiardau a theulu Rowlands Cefn Coed Goginan hawliau ar barseli o dir. Fe wnaeth teulu Powell Nanteos, yn eu rôl fel Arglwyddi'r Faenor, ddatgan eu hawl hefyd. Cododd y gwrthdaro rhwng yr ystadau oherwydd bod llawer o Arian ymhlith y mwynau yn ogystal â Phlwm a Sinc. Ymchwiliwyd yn drylwyr i hanes hynod ddiddorol y mentrau mwyngloddio yma gan Ioan Lord o Gwm Rheidiol, a oedd hyd yn ddiweddar yn fyfyriwr Hanes Cymru ym Mhrifysgol Bangor. Cyhoeddwyd ei lyfr, *Rich Mountains of Lead: The Metal Mining Industry of Cwm Rheidiol and Ystumtuen* (Rheidiol, 2018), yn ddiweddar ac mae'n ychwanegiad teilwng at y llyfrau hanes lleol sy'n ymwneud â hanes diwydiannau penodol yng Nghymru. Mae llyfr Ioan yn darllenadwy iawn ac mae ISWE yn annog pawb sydd â diddordeb mewn archeoleg ddiwydiannol i brynu copi a'i fwynhau. Byddai'n dda o beth cymharu'r cyhoeddiad hwn â chyfrifon mwyngloddiau Plwm, Sinc ac Arian eraill sy'n eiddo i ystadau eraill yng Nghymru. Yn anaml iawn y bydd myfyriwr israddedig yn llwyddo i gyhoeddi ffrwyth ei ymchwil. Mae i'w groesawu'n fawr, a rhaid llongyfarch Cwmni Rheilffordd Dyffryn Rheidiol am eu parodrwydd i gefnogi talent newydd.

***The Culture of Castles in Tudor England and Wales***


Rydym yn eiddgar iawn i weld cyhoeddi llyfr newydd Dr. Audrey Thorsted (London, 2019) sy'n canolbwyntio ar y cestyll hynny a adeiladwyd ac y bu pobl yn preswylio ynddynt yn ystod y 15fed ganrif a dechrau'r 16fed ganrif ac mae'r pwyslais a rydd ar yr agwedd gymdeithasol ar y cestyll hynny'n gyfraniad mawr i'n dealltwriaeth ninnau o ystadau oes hollbwysig y Tuduriaid. Mae




haneswyr wedi anwybyddu'r cyfnod hwn o adeiladu a phreswylio mewn cestyll ac felly mae llyfr sy'n helpu pontio'r 'bwlch' rhwng y canoloesoedd a'r byd modern cynnar hefyd yn helpu egluro sut y sefydlwyd ac y datblygwyd llawer o ystadau heddiw. Mae Dr Thorstad yn ystyried ei phwnc o wahanol safbwyntiau - y cestyll fel llefydd ar gyfer gwleidyddiaeth a lletygarwch, eu heffaith ar gymunedau lleol ynghyd â'u swyddogaeth o ran creu etifeddiaeth weledol. Mae hwn yn llyfr gwerthfawr ac mae'n gyfraniad pwysig at lenyddiaeth y cyfnod Tuduraidd a newidiodd rôl a dylanwad bonedd Cymru yn ddirfawr. Mae llawer yma i fyfyriwr ystadau Cymru ac mae ISWE yn falch iawn o weld ymestyn yr ysgolheictod.

***The Land Agent, 1700-1920***

Mae cenhadaeth eang gan ISWE sef annog ymchwil i ystadau Cymru, a bu'n canolbwyntio ar yr ystadau eu hunain, eu perchnogion, eu tai a'u gerddi a rôl tenantiaid a gweithwyr yr ystad. Un nodwedd o'r holl ystadau na chafodd nemor ddim sylw yw rhan yr asiant tir neu'r rheolwr ystad. Roedd gan y dynion yma (a dynion oeddent gan mwyaf) bŵer mawr dros y ffermwyr a oedd yn denantiaid, gweithwyr yr ystad, gosod eiddo a chasglu rhenti ac oherwydd bod llawer o'r tirfeddianwyr yn absennol, a'i bod yn well ganddynt dreulio eu hamser mewn mannau eraill neu yn Llundain neu yn un o'r trefi sba ffasiynol, roedd yr asiantau'n aml yn tra-arglwyddiaethu. Mewn hanesyddiaeth ac mewn llenyddiaeth, rhoddai pobl eu cas ar yr asiantau'n aml ac anelid llawer o gwynion y rhai a oedd yn gweithio'r tir at y 'rheolwyr' hynny a oedd yn aml yn gweithredu megis pe baent hwy eu hunain yn dirfeddianwyr. Anecdotaidd yw'r straeon o bryd i'w gilydd ac maent yn seiliedig ar sibrydion. Bu gwir angen dadansoddiad cytbwys o'r asiantau tir a fu'n gweithredu fel perchnogion yr ystadau eu hunain. Bellach mae'r dadansoddiad hwnnw wedi'i gyhoeddi ac mae *The Land Agent, 1700-1920* (Edinburgh, 2018) i'w groesawu ac mae'n sicr yn gyfraniad gwerthfawr at astudiaethau ystadau. Mae'r llyfr yn gynnyrch perthynas agos rhwng ISWE a chanolfannau ymchwil tebyg yn Iwerddon a'r Alban, gyda Lowri Ann Rees o Fangor yn cyd-olygu'r gyfrol gydag Annie Tindley (Newcastle) a Ciarán Reilly (Maynooth). Mae'r golygyddion wedi dewis fformat sy'n fodd i dri ar ddeg o awduron academaidd ddod â gwahanol safbwyntiau a phwysleisiau i'r gyfrol a bu hynny'n fodd cyflwyno ymchwil newydd o Gymru, Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Rhaid llongyfarch y golygyddion am gynhyrchu casgliad cytbwys sy'n caniatáu i'r darllenydd werthfawrogi'r tebygrwydd mawr a'r gwahaniaethau sylweddol rhwng yr arferion a fabwysiadwyd gan yr asiantau tir ym mhob un o'r pedair gwlad. Rhaid i ISWE ddatgelu buddiant oherwydd bod Cyfarwyddwr y Sefydliad, Shaun Evans ac un o sylfaenwyr y ganolfan, Lowri Ann Rees, wedi cyfrannu penodau unigol i'r gyfrol.





Mae'r gyfrol yn ddarllenadwy ac yn hygyrch ac yn gynnyrch ymchwil manwl. Dylai pawb sydd â diddordeb deall sut roedd y tirfeddianwyr yn trefnu ac yn cynnal eu hystadau a'u dibyniaeth ar eu hasiantau ddarllen y gyfrol hon a throi ati'n rheolaidd. Mae'n draethawd rhagorol ac yn ychwanegiad teilwng at yr hanesyddiaeth.

## LLYFRAU

### I'R LLYFRGELL

Efallai y bydd gan Gyfeillion Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ddiddordeb yn y cyhoeddiadau canlynol:




Bydd gan ddarllenwyr sydd â diddordeb yn ystadau a phlastai Cymru ddiddordeb arbennig yng nghyfrol Matthew Williams *Cardiff Castle and the Marquesses of Bute* (2019). I aros yn ne Cymru, mae cyfrol ddiweddar Jeff Childs *Parish of Llangyfelach: Landed Estates, Farms, and Families* (2018) yn tynnu sylw at y posibilrwydd y gall archifau ystadau daflu goleuni ar bob agwedd ar fywyd a chymdeithas leol. Mae Syr David Lewis yn parhau i gynhyrchu bywgraffiadau sylweddol am ystadau de orllewin Cymru, gan gynnwys cyfrolau sylweddol am Ddolaucothi a Brunant, Rhydodyn a Gelli-aur. Mae Simon Baynes newydd gynhyrchu rhifyn newydd o *Lake Vyrnwy: The Story of a Sporting Hotel* (2019).

Rydym yn aros yn eiddgar am gyhoeddi trydedd ran y gyfres *Cardiganshire County History* (Volume 2, 2019) a olygwyd gan Geraint H. Jenkins, Richard Suggett ac Eryn White. Bydd y gyfrol hon yn rhoi sylw i hanes Sir Aberteifi yn y canoloesoedd a'r cyfnod modern cynnar, gan gynnwys dylanwad yr ystadau ar wleidyddiaeth, diwylliant, amaethyddiaeth, tirwedd a phensaernïaeth.

Bydd cyfrol newydd David Stephenson ar *Medieval Wales c.1050-1332: Centuries of Ambiguity* (2019) yn ychwanegiad i'w groesawu at hanesyddiaeth, gan osod dadleuon pwysig ei gyfrol gynharach ar *Medieval Powys: Kingdom, Principality and Lordships, 1132-1293* (2016) o fewn cyd-destun Cymru gyfan.

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gyhoeddi gwaith Daniel Huws *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* (3 cyfrol) yn 2019-20. Mae Daniel yn gyn-Geidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru; bydd y gronfa yn adnodd anhepgor.

Y tu hwnt i Gymru, bydd gan ddarllenwyr ddiddordeb arbennig mewn cyfrol newydd o'r enw *Estate Landscapes in Northern Europe* (2019). Cafodd ei chyd-olygu gan Jon Finch, Kristine Dyrmann a Mikael Frausing. Dyma gyhoeddiad cyntaf ENCOUNTER | The European Network for Country House and Estate Research, sy'n rhwydwaith y mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn aelod balch ohono.





Mae Terence Dooley, Maeve O'Riordan a Christopher Ridgway wedi golygu cyfrol ar *Women and the Country houses in Ireland and Britain* (2018), sy'n cynnwys cyfraniad gwych gan Lowri Ann Rees, yn ychwanegu at y corff cynyddol o ysgolheictod sydd ar gael am y pwnc. Rhaid ychwanegu hefyd ddadansoddiad Briony McDonagh o *Elite Women and the Agricultural Landscape, 1700-1830* (2018).

Ym maes astudiaethau plastai, mae'r gyfrol a olygwyd gan Jon Stobart *Travel and the British Country House* (2017) a chyfrol Mark Purcell *The Country House Library* (2017) yn werth eu nodi.

Cysylltwch â ni os gwyddoch am gyhoeddiadau eraill a allai fod o ddiddordeb i'ch cyd-ddarllenwyr.












# EITEMAU NODWEDD

## DOD I ADNABOD YR ARCHIFYDD

**Elen Wyn Simpson, Archifydd Prifysgol Bangor**

Mae bodolaeth Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn llwyr ddibynnol ar y casgliad cyfoethog o bapurau ystadau sy'n cael eu cadw mewn amrywiol archifdai ledled Cymru. Ond dim ond storfeydd fyddai'r archifdai hynny oni bai am y timau gwych sy'n cynnal a chadw'r trysorau hyn. Meddyliom y byddai'n syniad da rhoi gwybod i ddarllenwyr y newyddlen am y bobl sy'n gweithio yn ein harchifdai, sef arwyr di-sôn-amdanynt ein hanes. Yn y rhifyn hwn, rydym yn cyflwyno Elen Wyn Simpson a'i thîm sy'n gofalu am Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor.

Archifau a Chasgliadau Arbennig, Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG. Ffôn: 01248 382966. E-bost: archifau@bangor.ac.uk.



(Cyfweliad gan Dr Gareth Huws)

**1. O safbwynt Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, pam yn eich barn chi bod yr archif hon yn bwysig?**

Heb amheuaeth, cryfder pennaf Archifau Bangor yw bod cymaint o bapurau ystadau i'w cael yma. Yng nghanol y dogfennau, sy'n ymddangos, ar yr olwg gyntaf, fel rhai gweinyddol yn unig, mae cyfoeth o wybodaeth am ddiddordebau tirfeddianwyr a syniad am eu dylanwad ar gymdeithas. Mae'r casgliadau hyn yn cyffwrdd ag ystod o themâu gan gynnwys gwleidyddiaeth, protest, llenyddiaeth a hyd yn oed gaethwasiaeth.

**2. Soniwch am ddwy agwedd o'ch gwaith sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?**

Dwi'n cael boddhad mawr yn gweld casgliadau o bapurau a fu ynghudd cyhyd yn cael eu catalogio fel eu bod ar gael i'n darllenwyr a dyma, mewn gwirionedd, yw fy mhrif dasg - gwneud yn siŵr bod ein casgliadau hanesyddol ar gael i bawb.

Mae agor bocs o'r storfa'n brofiad cyffrous bocs nad oes neb efallai wedi ei gyffwrdd ers blynyddoedd lawer a dod o hyd i rywbeth newydd ac annisgwyl ynddo. Mae staff yr archifdy'n dod o hyd i rywbeth newydd yn wythnosol ac rydym i gyd yn mwynhau rhannu'r darganfyddiadau hyn!

**3. Mae'n rhaid bod y gwaith yn gallu bod yn ddiflas ac yn undonog ar brydiau. Fedrwch chi sôn am ddau beth sy'n gwneud eich gwaith fel Archifydd yn anoddach?**

Ar y cyfan, dwi'n mwynhau pob agwedd o fy ngwaith ond dwi'n gweld siarad yn gyhoeddus yn dipyn o straen a 'dw i ddim yn rhy hapus pan mae'n rhaid i fi eistedd mewn cyfarfodydd diddiwedd sy'n fy atal rhag gwneud fy ngwaith 'go iawn' fel Archifydd.

**4. Oes gennych chi hoff ffeil neu ffolder o ddeunydd archifol? Soniwch wrthym ni amdani.**

Mae hwn yn gwestiwn dwi'n ei gael yn aml ac, a bod yn onest, mae'n anodd dewis un ddogfen. Yr hyn dwi'n cael fy nenu ato ydy'r rhannau hynny o gasgliadau sy'n adlewyrchu bywydau pobl gyffredin cofrestr ysgol neu ddyddiadur neu lythyr personol. Mae gen i ddiddordeb hefyd mewn papurau llenyddol, e.e. mae gen i gopi o delyneg hyfryd R. Williams Parry, "Clychau'r Gog" yn ei lawysgrifen ei hun, ond ar y ddogfen hon, roedd wedi ysgrifennu'r teitl "Blodau'r Gog" ac mae hyn yn dangos fod y bardd, wrth ysgrifennu'r papur penodol hwn, yn dal yn y cyfnod creadigol a hebbenderfynu'n derfynol ar deitl y gerdd.

Dwi hefyd yn hoff o Gasgliad Syr Ifor Williams, yn bennaf oherwydd y cyfoeth o ohebiaeth sydd ynddo a dwyster teimlad y llythyrau a ysgrifennwyd yn ystod y rhyfel

**5. Pe gallai Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru 'chwifio ffon hud', pa dri pheth hoffech chi eu cyflwyno er mwyn gwella'r gwasanaeth yr ydych yn ei gynnig?**

Dim ond tri pheth! Rhagor o staff i gynorthwyo darllenwyr, i ateb ymholiadau ac i gatalogio dogfennau. Cyllideb ddiderfyn i'n galluogi i wneud gwaith cadwraeth. Gwell lle i arddangos ein casgliadau.

**6. Pe bai person ifanc yn gofyn ichi a ddylent ystyried gyrfa fel Archifydd, pa gyngor fyddech chi'n ei roi o ran hyfforddiant, profiad neu ddiddordebau er mwyn i'r person ifanc ymuno â'r proffesiwn gyda dealltwriaeth realistig o'r gwaith?**

Yn ystod fy ngyrfa i, mae swyddogaeth yr Archifydd wedi newid yn llwyr wrth i ddefnyddwyr a chyflogwyr fod â rhagor o ddisgwyliadau. Fel mewn unrhyw yrfa, mae'n rhaid i unrhyw un sy'n dechrau yn y proffesiwn fod yn barod i dorchi ei lewys a chyflawni tasgau a all fod, ar adegau, yn ailadroddus ac yn ddiflas (yr enghraifft glasurol yw tynnu'r holl glipiau papur rhydlyd oddi ar fynydd o ddogfennau a'u cyfnewid am glipiau papur pres!) ond y prif gyngor y byddwn i'n ei roi fyddai rhoi blaenoriaeth i'r casgliadau. Mae'r archifau'n ein gofal yn unigryw ac yn chwarae rôl hynod bwysig o ran ein dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Y casgliadau hyn sy'n denu pobl i'r adran a'r casgliadau hyn sy'n tanio eu dychymyg. Ein gwaith ni yw sicrhau y bydd y casgliadau ar gael am ganrifoedd i ddod.


PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# EITEMAU NODWEDD

## MAP YSTADAU MÔN

Mae'r map hwn o brif blastai uchelwyr Môn yn y 18fed ganrif wedi'i gynnwys yn llyfryn newydd Mary Gwynedd Jones am Elizabeth Morgan o Henblas. Mae llawer o'r archifau sy'n ymwneud â'r ystadau hyn ym meddiant Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor.

Yn ddiweddar, dan arweiniad Mary Gwynedd Jones, sy'n aelod o Gangen Gwynedd o Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru, cafwyd taith maes hynod lwyddiannus, fel rhan o weithgareddau Cymdeithas Hynafiaethwyr Môn, i Henblas (Gorffennaf 2019) ac roedd ei gwybodaeth hi am y plasty a'r tir (ac yn enwedig y gerddi) yn amhrisiadwy. Roedd pawb oedd ar y daith yn gwerthfawrogi ei hysgolheictod a'i pharodrwydd i rannu ffrwyth ei hymchwil.




## DWY ARCHIF - UN YSTAD YNG NGHYMRU

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru'n ymwybodol iawn o'r cur pen ymarferol sy'n wynebu ymchwilwyr pan nad yw deunydd gwreiddiol hanfodol i'w gael yn eu harchifdy lleol ond yn hytrach wedi ei gyflwyno yn rhywle arall (annisgwyl weithiau), e.e. deunydd sy'n ymwneud â rhyw sir benodol sydd wedi ei gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Ond dylai ymchwilwyr hefyd fod yn ymwybodol o ail ffenomen a all olygu, weithiau, bod deunydd perthnasol yn cael ei ddiystyru. Sef pan geir dogfennau sy'n ymwneud ag ystad benodol mewn dau leoliad gwahanol, a bod un ohonynt y tu hwnt i gylch gwaith catalog Archifau Cymru. Roedd rhai ystadau yng Nghymru yn rhan o ystadau a oedd wedi'u lleoli yn Iwerddon, yn yr Alban ac yn Lloegr, neu'n berchen ar dir yn yr awdurdodaethau hynny. Pen draw hyn yw bod deunyddiau pwysig sy'n berthnasol i Gymru'n cael eu storio mewn llyfrgelloedd prifysgol neu archifdai lleol yn Llundain neu Gaeredin neu Ddulyn, neu mewn archifdai sirol ledled y Deyrnas Unedig. Gall catalog yr Archive Hub (https://archiveshub.jisc.ac.uk/) fod yn fendith wrth geisio dod o hyd i rai o'r dogfennau hyn.

Un enghraifft o hyn yw ystad Penrhos yng Nghaergybi, Ynys Môn. Mae gan Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor gasgliad sylweddol o ddogfennau, o bwys rhyngwladol, yn ymwneud â'r ystad hon (sydd wedi eu catalogio fel Penrhos I - Penrhos VIII) ac mae'r deunydd hwn wedi bod yn amhrisiadwy i ymchwilwyr. Ond yn dilyn priodas Margaret Owen, aeres Penrhos, a Syr John Thomas Stanley o Alderley yn Sir Caer yn 1763, unwyd y ddwy ystad ond fod y naill 'dŷ' a'r llall yn cadw eu cyfrifon a'u gohebiaeth eu hunain. Canlyniad hyn yw bod gan y Cheshire Archives and Local Studies Office (Duke St., Caer) gasgliad o bapurau Stanley, y mae nifer fawr ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ystad Penrhos (wedi eu catalogio fel DSA 1-205). Mae'r rhain yn rhoi golwg hynod ddiddorol o'r teulu hwn, ac mae'n bosibl cyfosod llythyrau a anfonwyd o Benrhos â llythyrau a dderbyniwyd yn Alderley. Mae'n anghyffredin gallu darllen gohebiaeth yn-ôl-ac-ymlaen yn gyfan ac felly gall bod â 'dwy archif - un ystad' fod yn ddefnyddiol o ran cael darlun llawnach o'r ystadau. Mae ambell ryfeddod hefyd ar ffurf llythyrau unigol neu lyfrau cyfrifon neu ddarnau o ddyddiaduron mewn archifau mor bell oddi wrth ei gilydd â Llyfrgell John Rylands ym Mhrifysgol Manceinion (Rylands Charters 776-913) a Chasgliadau Arbennig Llyfrgell Bodleian ym Mhrifysgol Rhydychen (MSS Eng mis e.52). I'r ymchwilydd druan, fodd bynnag, mae'n golygu mwy o deithio, a sylweddoli nad yw'r misoedd a dreuliwyd ar un archif ond hanner y gwaith! Ond o edrych ar hyn yn gadarnhaol, gall tyrchu trwy ddwy archif olygu y ceir dwbl y 'trysorau'.

Yn sicr nid dyma'r unig enghraifft o hyn. A yw darllenwyr newyddlen Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn gwybod am ymchwilwyr mewn gwahanol feysydd sy'n cydweithredu er mwyn casglu gwybodaeth o archifdai mewn ardaloedd daearyddol gwahanol? Byddem wrth ein boddau'n clywed am eich profiadau.

SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU • INSTITUTE FOR THE STUDY OF WELSH ESTATES •

## CYFARFOD PERCHENNOG YSTAD

Wrth gofnodi, ymchwilio a chydberthyn hanes ystadau Cymru, weithiau mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn anghofio cyfraniad pwysig perchnogion yr ystadau hyn at yr hanes hwn. Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar y bobl hyn, er mwyn deall yn well eu cyfrifoldebau mewn byd sy'n hollol wahanol i fyd eu cyndeidiau a'u rhagflaenwyr.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn siarad â'r Athro Robin Grove-White o Frynddu, Llanfechell, Ynys Môn. Mae gan ei deulu gysylltiadau hirsefydlog â Brynddu, a oedd hefyd yn gysylltiedig â'r ystad Duduraidd, Plas Coch yn Llanidan, Ynys Môn. Yr Athro Grove-White yw cadeirydd bwrdd ymgynghorol Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a chyhoeddir ei lyfr, A *Prism for His Times: Late-Tudor Anglesey and Hugh Hughes of Plas Coch*, ddechrau 2020.



**1. Faint oedd eich oed pan wnaethoch etifeddu'r ystad ac ym mha ffyrdd effeithiodd yr etifeddiaeth ar eich bywyd?**

Roeddwn yn 59 oed, ac yn rhedeg canolfan ymchwil gwyddorau cymdeithas brysur ym Mhrifysgol Caerhirfryn, pan fu farw fy nhad yn y flwyddyn 2000. Er fy mod yn gwybod erioed y buaswn yn etifeddu'r ystad, dim ond pan ddigwyddodd hynny y bu'n rhaid i'm gwraig Helen a minnau benderfynu a ddylem symud yn ôl i Ynys Môn ai peidio. (Cefais fy magu yno ers pan oeddwn yn ddeg oed, ar ôl i fy nhad etifeddu'r ystad gan ei ewythr). Gwnes ymddeol yn gynnar, a gwnaethom symud yno'n raddol. Roedd yn newid mawr, er yn un cadarnhaol dros ben. Mae fy nghyn-deidiau wedi byw yma'n ddi-dor ers yr oesoedd canol, ond mae'r ystad wedi crebachu'n arw ers hynny, o tua phum mil erw yn ei hanterth i naw can erw erbyn hyn. Un hynafiad penodol oedd fel petai ei ysbryd yn byw yma oedd y dyddiadurwr enwog o'r ddeunawfed ganrif, William Bulkeley, a oedd wedi ysgrifennu llawer am Brynddu, a bywyd yn Llanfechell yn ei gyfnod. Felly roedd yr ystad yn teimlo fel rhywbeth byw i mi, ac mae'n debyg bod hyn wedi effeithio ar fy synnwyr o fi fy hun, ac yn wir o'm dyletswydd, mewn perthynas â'r teulu a'r gymuned leol heddiw.

**2. A ydych wedi gwneud unrhyw benderfyniadau am eich ystad sydd wedi eich gwneud yn falch neu a ydych wedi gwneud unrhyw benderfyniadau rydych wedi eu difaru?**

Wel, yn y lle cyntaf rwy'n falch ein bod wedi penderfynu parhau â'r ystad, yn hytrach na rhoi'r ffidil yn y to. Ac yna, mae'n teimlo'n dda fy mod wedi adeiladu ar berthynas fy rhieni â phentref Llanfechell ei hun. Doeddwn erioed wedi adnabod y gymuned yn dda pan oeddwn yn iau, ar ôl bod i ffwrdd cymaint yn Lloegr mewn ysgol breswyl ac yn y brifysgol. Ond ar ôl dychwelyd yn ddiweddarach yn fy mywyd, sylweddolais yn gyflym fod bod yn berchen ar dir sy'n ffinio ar y pentref yn cynnig cyfle i gyfrannu'n adeiladol - trwy annog digwyddiadau lleol yn y tŷ ac ar y tiroedd, cynnig gwell mynediad i'r llwybrau troed, cyfrannu tir at randiroedd, sbarduno mentrau fel grŵp hanes a chanolfan a chaffi cymunedol newydd, etc. Mae wedi bod yn ddifyr iawn cydweithredu â chymaint o bobl dda mewn pentref sydd mor Gymreigaidd. Mae fy sgiliau iaith yn gyfyngedig, ond rydw i wedi dod i uniaethu'n gryf â diwylliant Cymru. Ar y llaw arall, nid wyf yn ddyn busnes arbennig o dda, felly ni allaf honni fy mod wedi cael hwyl ar ddatblygu asedau'r ystâd i gyfeiriadau masnachol newydd. Mae gennym denantiaid tymor hir abl iawn, ac maent yn rhedeg y ffermydd eu hunain, i raddau helaeth heb ymyrraeth gennym ni. Fy nghefndir cynharach oedd fel ymgyrchydd amgylcheddol gyda CPRE a Greenpeace. Rwy'n gobeithio bod hynny wedi dylanwadu ar rai o'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud.

**3. Beth yw'r heriau sy'n wynebu perchnogion ystadau y dyddiau hyn ac a ydynt i gyd yn wahanol i'r rhai a oedd yn wynebu eich cyndeidiau?**

Mae arian yn broblem bob amser, er na fuaswn yn gofyn am gydymdeimlad, gan ein bod mor ffodus mewn cymaint o ffyrdd eraill. Mae cynnal a chadw adeiladau rhestredig a gardd hanesyddol, costau fferm a byw mewn tŷ mawr oer, wedi herio'r ddau ohonom. Ond mae'n hawdd anghofio bod cyfraddau treth yn uwch yn amser fy nhad, ac yn wleidyddol rwy'n credu ei bod hi'n iawn i bobl gyfoethog dalu eu cyfran. Bu newidiadau mawr yn effeithio ar ystadau fel hon yn y gorffennol - er enghraifft yn ystod y dirwasgiadau amaethyddol ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae pob cenhedlaeth yn wynebu problemau newydd. Nid oes amheuaeth bod bod yn dirfeddiannwr y dyddiau hyn yn eich neilltuo'n gymdeithasol mewn rhai ffyrdd - mae gennych broblemau a gofidiau sy'n anodd eu rhannu â phobl eraill. Fedrwch chi ddim disgwyl i bobl gydymdeimlo ag unrhyw broblemau achos eich bod yn freintiedig a dweud y gwir...

**4. A ydych yn teimlo baich hanes ar eich ysgwyddau mewn unrhyw ffordd a sut mae hyn wedi effeithio ar unrhyw gamau rydych wedi eu cymryd?**

Dros y canrifoedd, ffynnodd fy nheulu oherwydd eu bod yn berchen ar lawer o dir yn lleol. Mae gwybod hyn wedi gwneud i mi deimlo rhyw fath o ddyletswydd, am wn i. Hefyd, oherwydd y parhad, mae gennym fwy o ddogfennaeth o genedlaethau'r gorffennol na llawer o bobl eraill. Er enghraifft, ceir mwy na 4,000 o ddogfennau teuluol, yn mynd yn ôl i ddechrau'r bymthegfed ganrif, yn Archifau Prifysgol Bangor. Mae hyn yn rhoi gwedd bersonol iawn ar y gorffennol - ac mae ei archwilio wedi fy nhroi yn hanesydd, sydd wedi arwain at wneud doethuriaeth yn fy henaint ym Mhrifysgol Bangor am Ynys Môn yn ystod oes Elisabeth, yn ogystal â chymryd rhan yn Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a Chymdeithas Hynafiaethol Ynys Môn, a hyderaf, mwy o ymchwil yn y dyfodol.

**5. A yw'n bwysig i chi fod ystad eich teulu a'ch plasty bellach yn destun gwaith ymchwil? A all ymchwil hanesyddol eich helpu i ddeall cyfraniad eich teulu at fywyd Cymru dros y cenedlaethau?**

Ydy wir, mae trefniant fel ein un ni yn adnodd hanesyddol i lawer o bobl eraill y tu hwnt i'r teulu. Mae cymaint i'w ddysgu o ddogfennau ystadau ynglŷn â sut roedd cymdeithas Cymru a'r economi leol yn gweithio yn y gorffennol, ynglŷn â phwy oedd yn byw ymhle ac o dan ba amodau, ynglŷn â sut roedd cysylltiadau cymdeithasol yn gweithio a pham datblygodd tirwedd heddiw a phatrymau perchnogaeth fel y gwnaethant. Mae'n rhyfeddol, rywyf wedi darganfod sut mae bywyd yn cael ei gyfoethogi gan ddiddordeb am hanes lleol, a rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu gyda'n gilydd. Mae gan grŵp hanes Llanfechell, sy'n ddwyieithog ac a ffurfiwyd yn 2006, wefan sy'n cynnwys llawer o'r agweddau lleol hyn ([www.cymchanhanesmechell.co.uk.](www.cymchanhanesmechell.co.uk.)), ac rydym i gyd yn falch ohono. Yn fwy cyffredinol, am ganrifoedd lawer, roedd Cymru yn frith o ystadau, felly mae dogfennau'r ystadau hyn gyda'i gilydd yn adnodd enfawr - nid ydynt yn cael eu defnyddio digon i ddeall hanes Cymru, yn genedlaethol yn ogystal ag yn lleol. Dyna pam, yn fy marn i, mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn ddatblygiad mor bwysig i Gymru gyfan.

**6. O'ch safbwynt presennol, pa etifeddiaeth hoffech ei gadael i'r cenedlaethau a fydd yn eich dilyn?**

Cyn belled ag y mae Brynddu yn y cwestiwn, mae'n rhaid i bob cenhedlaeth wneud pethau yn ei ffordd ei hun. Bydd angen dulliau newydd o wneud pethau yn yr amgylchiadau gwahanol iawn sydd o'n blaenau, ac rwy'n hyderus y bydd fy mab hynaf, sy'n cymryd drosodd yn raddol, yn gwneud yn fawr o'i sgiliau ym mhennod nesaf y stori hirhoedlog hon.

# EITEMAU NODWEDD

## SAFBWYNT: VR - Y DYFODOL AR GYFER YMCHWIL YSTADAU?

Roedd Gŵyl y Fflam a gynhaliwyd yng Nghorwen fis Medi yn cynnwys taith rhithrealiti (VR) o amgylch plas Owain Glyndŵr yn Sycharth, yn seiliedig ar y disgrifiad a roddwyd gan Iolo Goch yn ei awdl, *Llys Owain Glyndŵr,* sy'n clodfori rhinweddau'r neuadd a chynhesrwydd y lletygarwch. Esboniodd Toby Niesse, o Vivid Virtual Reality, a greodd y daith, iddo ddefnyddio ei wybodaeth am y dull o adeiladu tai canoloesol fel sail ac yna ychwanegu manylion o'r awdl.

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn gofyn a allai ymchwilwyr sy'n gweithio ar hanes ystadau Cymru ddefnyddio rhaglen dechnolegol o'r fath ac a fyddai hynny'n ychwanegu at ein dealltwriaeth?

Er enghraifft, mae ffynonellau gwreiddiol y gellid eu defnyddio mewn dull newydd i ddarparu'r data sylfaenol er mwyn creu rhithrealiti o'r fath, e.e. mewn llawer o archifau yng Nghymru mae casgliadau sylweddol ar gael o gatalogau gwerthiannau a gyhoeddwyd pan oedd yr ystadau a'r plastai'n cael eu gwerthu. Mae'r catalogau hyn yn cynnwys rhestrau llawn o'r holl ddodrefn a'r ffitiadau yn y plastai a chan y byddai'r arwerthwyr mwy na thebyg yn symud o ystafell i ystafell gan nodi'r eitemau hyn yn eu tro, mae'n bosibl creu llun o beth fyddai ym mhob ystafell a sut y byddent yn edrych. Ffynhonnell arall bosibl fyddai stocrestrau a luniwyd at ddibenion etifeddu.

I ba raddau y gallai defnyddio technoleg o'r fath fod yn ddefnyddiol? Roedd y rhyngweithio rhwng aelodau'r teulu yn nodwedd ganolog yn nhai'r bonedd a gwnaed llawer o benderfyniadau pellgyrhaeddol o fewn yr unedau teuluol hyn. Gallai deall cynllun y plasty ein helpu i ddeall deinameg y teulu. Defnydd arall fyddai olrhain tarddiad dodrefn, ffitiadau a llyfrau a chysylltu statws ariannol y teulu ag achosion o brynu neu werthu eitemau penodol.

Ni ddylai ymchwilwyr sydd o ddifrif am hanes plastai gyfyngu eu gwaith i ddulliau cyfarwydd (er bod y rheiny'n parhau i fod o'r pwys mwyaf) ond dylent fod yn barod i arloesi ac edrych ar ddefnyddio technoleg ddigidol yn ei hamryfal ffurfiau.

## 'YSTADAU PENNAF' Y DDEUNAWFED GANRIF

Yn *Politics in Eighteenth-Century Wales* (Caerdydd, 1998) mae Peter D.G. Thomas yn rhestru 51 o ystadau yng Nghymru y dylid eu hystyried, yn ei farn ef, fel ystadau 'Pennaf' y ddeunawfed ganrif. Y rhain yw:

**Sir Fôn**: Baron Hill, Bodorgan, Plas Newydd

**Sir Gaernarfon**: Glynllifon, Gwydyr, Clenennau, Cefnamlwch, Gloddaeth

**Sir Ddinbych**: Lleweni, Wynnstay, Castell y Waun

**Sir y Fflint**: Bodrhyddan, Mostyn, Coed-llai, Llys Bedydd

**Sir Feirionnydd**: Corsygedol, Rhiwgoch, Nannau, Glan-llyn

**Sir Drefaldwyn**: Llwydiarth, Castell Powys

**Sir Aberteifi**: Gogerddan, Hafod, Nanteos, Trawscoed, Ffynnon Bedr, Priordy Aberteifi

**Sir Faesyfed**: Cwm-hir, Downton, Llys Tre'r Delyn

**Sir Frycheiniog**: Llanelwedd, Gwernyfed, Y Dderw, Priordy Aberhonddu, Bychlyd

**Sir Benfro**: Orielton, Castell Pictwn, Llys Ystangbwll

**Sir Gaerfyrddin**: Rhydodyn, Cwmgwili, Dinefwr, Gelli-aur

**Sir Forgannwg**: Y Gnoll, Abaty Margam, Castell Pendeulwyn, Castell Caerdydd

**Sir Fynwy**: Castell Rhaglan, Parc Pont-y-Pŵl, Parc Tredegar

**Swydd Henffordd**: Brampton Bryan*

**Swydd Amwythig**: Brogyntyn*

*Er eu bod wedi eu lleoli yn Lloegr, roedd gan y ddwy ystad ddeiliadaethau helaeth yng Nghymru.

A fyddai darllenwyr newyddlen Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn cytuno â'r rhestr hon? Ai dyma'r rhestr ddiffiniol o ystadau 'pennaf' y ddeunawfed ganrif; a fyddai rhestr ar gyfer yr unfed ganrif ar bymtheg neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn wahanol?



## O DAN Y CHWYDDWYDR

**Rhol achau John ap William ap Dafydd o Euarth Uchaf, Llanfair Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych (BUASC, Penrhos I / 546).**

Fel rhan o'r modiwl 'Dogfennau a Ffynonellau' yn yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, gwahoddwyd grŵp o fyfyrwyr ôl-radd hanes canoloesol a modern cynnar yn ddiweddar i Archifau a Chasgliadau Arbennig y brifysgol i wneud dadansoddiad cychwynnol o'r rôl achau hon o'r 16eg ganrif o dan oruchwyliaeth Dr Shaun Evans o Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Yn ei arolwg o ddogfennau o'r fath o Gymru, dangosodd Michael Siddons fod yr eitemau hyn yn gynyddol boblogaidd ymhlith y bonedd yng Nghymru yn yr 16eg ganrif. Mae rhol Euarth Uchaf yn un o ddwy o'r 16eg ganrif sydd yn archif y brifysgol, y llall yw'r rhol achau a luniwyd i Dafydd Salbri (neu Salusbury) gan y bardd enwog Wiliam Cynwal ym 1570. Fel llawer o rai eraill o'r un cyfnod, mae achau Euarth Uchaf yn helaeth, ac yn mesur 1063 cm o hyd. Nid yw enw'r sawl a luniodd y ddogfen yn hysbys, ond mae wedi ei hysgrifennu yn Saesneg i gyd, ac eithrio arwyddair y teulu: *Sustine ac abstine* ('dioddef ac ymatal'). Tua'r adeg hon collodd y beirdd eu monopoli o ran cael comisiynau i lunio defnyddiau heraldig ac achyddol Cymru. Mae'n cynnwys cyfres o darianau heraldig lliw, gan nodi priodasau hynafiaid John ap William, yn ymestyn canrifoedd yn ôl trwy hanes Cymru a Phrydain cyn belled â Brutus, Brenin y Troeaid, fel y cafodd ei anfarwoli yng ngweithiau Sieffre o Fynwy yn y 12fed ganrif. Gellir gweld tystiolaeth bellach o ddylanwad parhaus gwaith Sieffre yn nheitlau Uthr ac Arthur Bendragon a'r disgrifiadau ohonynt. Mae'r daith sy'n cael ei olrhain gan y llinach trwy hanes i ganol chwedl yn ddethol iawn ac nid oedd y sawl a luniodd y rhol yn gallu adnabod neu ddyfeisio arfbeisiau i lawer o'r unigolion a enwir yn adrannau cynharaf y gofrestr (a oedd yn byw yn y cyfnod cyn-heraldig). Cyflwynir y canlyniad heraldig llawn ar waelod y gofrestr, gan gyfuno llawer o'r tarianau a etifeddwyd yn gynharach yn y llinach. Mae'r darlun hwn yn awgrymu bod Dafydd Dinllaes ac Edwin Tegeingl ymhlith cyndeidiau'r teulu. Mae Siddons yn dangos arfbais Dafydd Dinllaes, fel y dywed John ap William, fel *Or, a lion passant gardant in an orle of eight roses Gules, barbed and seeded proper*! Yn ogystal â'r gwahanol darianau, mae'r rhol achau yn aml yn cynnwys sylwadau a ffeithiau bywgraffyddol am rai o'r unigolion a enwir yn y ddogfen. Yn ddiddorol, nid yw'r rhol yn dangos llinach John ap William yn unig; mae hefyd yn cynnwys llinach y frenhines oedd yn teyrnasu ar y pryd, sef Elizabeth I. Mae'r arfbais frenhinol yn cael ei arddangos ochr yn ochr ag arfbais John ap William ar waelod y ddogfen, gyda'r ddwy linach yn mynd yn ôl o'r fan honno ac yn dod ynghyd yn y pen draw. Rydym yn rhagdybio bod y ddyfais hon wedi cael ei defnyddio i dynnu sylw at fri llinach John ap William, sy'n deillio o'r un gwraidd â'r brenhinoedd Tuduraidd. Mae'r rhol achau yn nodi'r hynafiaid yr oedd John ac Edward III yn eu rhannu, ond mae hefyd yn olrhain hynafiaid y Tuduriaid a'u tarddiad ym mrenhiniaeth Cymru'r canol oesoedd. Yn ddiddorol, ymddengys bod y llinach frenhinol yn cael ei rhannu, gyda nifer o ffigurau brenhinol yn cynnwys Henry V, Richard III a phedair o wragedd Harri VIII wedi eu heithrio o'r rhol. Mae diwedd y llinach yn cael ei ddangos trwy roi'r arfbeisiau ar ogwydd neu roi croes goch o dan y tarianau. Mae ymchwil yn awgrymu bod teulu John ap William ei hun yn perthyn i uchelwyr Sir Ddinbych. Ymddengys ei fod yn perthyn i deulu Williams o Neuadd Euarth (gallai'r dyddiadau 1599 a 1606 yn yr adeilad fod yn gysylltiedig â'r teulu hwn). Ond ni fuont erioed yn flaenllaw yn eu hardal. Efallai y byddech yn disgwyl i ddatganiad felly o berthynas ac ymlyniad i'r goron ddynodi gyrfa flaenllaw mewn swyddi amlwg fel ynad heddwch, ond nid yw hyn yn wir. Yn wir, ymddengys fod y rhol achau wrth wraidd hawliadau'r teulu i statws, anrhydedd ac awdurdod, yn seiliedig ar hunaniaeth achyddol o fri yn hytrach na chyfoeth neu swydd. Yn ddiamau, roedd y ddogfen yn fodd o arddangos a hyrwyddo statws a hunaniaeth John a'i blant. Ond sut gellid defnyddio gwrthrych mor anhylaw fel eitem arddangos? Pwy oedd ei gynulleidfa darged? Mewn mannau ar y ddogfen, gellir gweld bod geiriau wedi cael eu dileu a bod cywiriadau wedi cael eu gwneud. Pwy wnaeth y newidiadau hyn, pryd a pham? Ar ben hyn, mae gwaelod y ddogfen wedi gwisgo cryn dipyn, gan awgrymu bod y rhan hon o'r rhol (h.y. yr hynafiaid diweddar) yn cael ei hagor, ei defnyddio a'i gweld yn fwy aml. Yn y pen draw, nid yw union ddefnydd y rhol hon yn glir, er ein bod yn gallu rhagdybio bod y ddogfen wedi cael ei harddangos ar fwrdd hir a dyna pam ei bod mor ofnadwy o hir, er mwyn dangos llinach y teulu a chysylltiadau brenhinol i uchelwyr oedd yn ymweld â'r teulu ac efallai i'w defnyddio fel arf wrth ddod i gytundeb ynglŷn â phriodas. Yn ogystal, mae'n amlwg o gyflwr y ddogfen ei bod wedi cael ei chadw a'i gwerthfawrogi trwy'r cenedlaethau.



Mewn sesiwn awr, nid oedd modd i ni wneud mwy na chrafu'r wyneb am arwyddocâd diwylliannol a gwerth hanesyddol y rhol achau. Mae ganddi'r potensial i gadw ein hymchwilwyr yn brysur am amser hir i ddod! Cododd nifer o gwestiynau yn ystod y dadansoddiad cychwynnol, yn cynnwys *pam* cafodd rhai ffigurau brenhinol eu neilltuo o'r gofrestr hon. Pam ysgrifennwyd y ddogfen yn Saesneg a hithau'n dangos obsesiwn amlwg y teulu â chyflwyno hunaniaeth hynafol Gymreig a Phrydeinig? Pa ffynonellau a ddefnyddiodd y sawl a luniodd y gofrestr i adeiladu'r achres? I ba raddau y bu i John ap William reoli'r comisiwn, gan gynnwys y llinachau sy'n cael eu holrhain ar y rhol? Er hynny, ar hyn o bryd, rydym yn ansicr ynglŷn â pham a sut cafodd y rhol hon ei chreu a'i defnyddio, a bydd yn rhoi digon o waith ymchwilio i ni yn y misoedd i ddod. **Ysgrifennwyd yr erthygl hon gan Kimberly Jussila & Callum Dickson**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# DIGWYDDIADAU I DDOD

## CYFRES SEMINARAU YMCHWIL 2019/20

Mae cyfres seminarau ymchwil Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd dyddiadau'r digwyddiadau yn cael eu rhoi ar wefan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ac ar y cyfryngau cymdeithasol. I gael y newyddion diweddaraf trwy e-bost, cysylltwch ag iswe@bangor.ac.uk

## DARLITH THOMAS PENNANT

Mae Dr Shaun Evans wrth ei fodd o fod wedi cael ei wahodd i draddodi Darlith Flynyddol Cymdeithas Thomas Pennant. Dyma'r 23ain gwaith i'r ddarlith gael ei chynnal a bydd Shaun yn siarad am 'Pennant and the Great Houses' yn Llyfrgell Treffynnon, Sir y Fflint, ddydd Iau, 17 Hydref 2019, 7.30pm. Ffoniwch 01352 703850 i gael rhagor o fanylion.

## ARCHWILIO HANES TIRWEDD CYMRU

Mae'r Society for Landscape Studies a Chymdeithas Hynafiaethau Cymru yn dod at ei gilydd i gynnal cynhadledd arbennig yn yr hydref. Pwnc y gynhadledd fydd 'Recent Work in Welsh Landscape History'. Bydd y gynhadledd yn cynnwys sesiwn ar dirweddau ystadau Cymru, gyda sgwrs gan Philip Nanney Williams am ystâd Nannau ac arolwg o'r pwnc gan Dr Shaun Evans. Cynhelir y gynhadledd yn Adeilad John Percival, Campws Parc Cathays, Prifysgol Caerdydd, ddydd Sadwrn, 19 Hydref 2019.

Mae ffurflenni archebu ar gael trwy e-bostio brian-rich457@btinternet.com neu trwy ffonio Brian Rich ar 01538 384713

## CYFRES DARLITHOEDD SHANKLAND

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Stephen Colclough ar Hanes a Diwylliant y Llyfr i gynnal sgwrs ym Mhrifysgol Bangor gan Dr Mary Chadwick ar 'Writing and Reading in Manuscript Poetry: from Grub Street to the Mabinogi'.

Llyfrgell Shankland, Prifysgol Bangor, ddydd Mercher, 13 Tachwedd, 5pm. Croeso i bawb!

## ARCHWILIO'R ARCHIF 2019!

Fel rhan o'r digwyddiadau cenedlaethol a gynhelir bob blwyddyn i ddathlu archifau, mae cydweithwyr academaidd o bob rhan o'r Brifysgol yn ymuno ag adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor i gynnal rhaglen o weithdai cyhoeddus ar wahanol fathau o gofnodion rhwng 25 a 29 Tachwedd 2019.

Fel rhan o'r rhaglen bydd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn cynnal gweithdy ar roliau herodrol am 2pm ar 25 Tachwedd. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu unrhyw un o'r gweithdai, cofrestrwch trwy gysylltu ag Archifdy'r Brifysgol.

## YSGOL UNDYDD YN ARCHWILIO HANES YSTADAU SIR GAERFYRDDIN

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch iawn o gael cefnogi ysgol undydd sy'n cael ei threfnu gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin yn archwilio hanes ystadau'r bonedd. Cynhelir y digwyddiad yng Nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin ddydd Sadwrn, 15 Chwefror 2020. Ewch i https://www.carmants.org.uk/ i gael rhagor o fanylion.


## CYMDEITHAS DDINESIG DYFFRYN CONWY

Gwahoddwyd Dr Shaun Evans i annerch y grŵp i sôn am waith Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ddydd Mercher, 22 Ebrill 2020.

## LAWYSGRIFAU CYMRU 800-1800

Cynhelir y gynhadledd hon ar y cyd gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddathlu cyhoeddi A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes gan Daniel Huws.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 9-11 Medi 2020.



# BETH YW'R SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU?

## *Grym newydd ym mywyd diwylliannol a deallusol Cymru*

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru wedi ei sefydlu ym Mhrifysgol Bangor fel menter arloesol hirdymor gyda'r nod o drawsnewid dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru, a'i thirweddau, amgylcheddau adeiledig a chasgliadau treftadaeth.

Mae dull gweithredu arbennig y Sefydliad yn cynnwys nid yn unig ysgolheictod o ansawdd uchel, ond hefyd ryngweithio cyson rhwng arbenigedd academaidd ac archifau a sefydliadau treftadaeth y wlad, perchenogion a gwarcheidwaid plastai a thirweddau hanesyddol Cymru, a chymunedau lleol, gyda'r bwriad o roi golwg gymdeithasol a diwylliannol dreiddgar a newydd ar bresennol a gorffennol Cymru.

Mae'r holl ymchwil yn pwyso ar y casgliadau hanesyddol - yn archifau, adeiladau, llyfrgelloedd, tirweddau, cofebau a gweithiau celf - a gynhyrchwyd, a gasglwyd ac a ddiogelwyd gan ystadau Cymru a'u cymunedau cysylltiedig dros lawer canrif. Ym Mangor, mae ISWE yn gweithredu fel partneriaeth gydag Archifau'r Brifysgol a Chasgliadau Arbennig.

Hyd yn hyn, nid yw'r casgliad hwn o dystiolaeth ragorol, a gedwir mewn cadwrfeydd cyhoeddus a phreifat ledled Cymru, wedi derbyn sylw academaidd mawr. Uchelgais Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ar gyfer y genhedlaeth nesaf yw rhyddhau ei botensial ymchwil a threftadaeth trwy brojectau ac astudiaethau cydweithredol egnïol, yn enwedig drwy ei garfan ffyniannus o ymchwilwyr doethuriaeth ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.

O'r cyfnod canoloesol hyd at ddechrau'r 20fed ganrif, roedd ystadau - o wahanol faint, cymeriad a chyfansoddiad - yn rhan hanfodol o fywyd a strwythur Cymru, gan feddiannu llawer o'i thir, a dylanwadu ar bob agwedd ar gymdeithas. Mae casgliadau ystadau felly'n rhychwantu ystod eithriadol o themâu a materion, o amaethyddiaeth, pensaernïaeth, cerddoriaeth, gwleidyddiaeth a'r economi i lenyddiaeth, diwydiant, cyfraith ac iaith. Wrth ddadansoddi effeithiau a dylanwadau enfawr ystadau, ar draws pob rhan o Gymru, mae ISWE mewn sefyllfa i greu corff newydd o ysgolheictod a fydd yn mireinio ac yn herio dehongliadau a dirnadaeth sydd wedi hen ennill eu plwyf ynghylch gorffennol Cymru.


Mae cyfleoedd o bwys i'r wybodaeth hon oleuo a dylanwadu ar bresennol a dyfodol Cymru - yn arbennig ym meysydd dehongli treftadaeth, datblygu twristiaeth, defnydd tir a'r economi wledig; ac yn fwy sylfaenol fyth, mewn perthynas â'r ffordd y mae hunaniaethau Cymreig a lle Cymru yn y byd wedi cael eu ffurfio a'u deall.

Mae'r Sefydliad yn cydnabod bod gan bobl Cymru ddiddordeb mawr mewn deall hanes y lleoedd a'r cymunedau maent yn byw ynddynt. Mae gwneud cyfraniad i gyfoethogi hanes Cymru a'i ledaenu; hanes a ddylai chwarae rhan allweddol yn y gymdeithas Gymreig, heddiw ac yn y dyfodol, yn rhan bwysig o hunaniaeth y Sefydliad. Bydd y Sefydliad yn rhannu ei lwybrau darganfod ac archwilio, trwy agor cyfleoedd ar gyfer ymwneud â'r gymuned fel rhan o'i ymchwil, trefnu rhaglenni eang o ddigwyddiadau cyhoeddus ledled Cymru, a chynnal presenoldeb gweithredol ar gyfryngau cymdeithasol.


Mae'r cyfuniad o astudiaethau lleol eu naws, ynghyd â chylch gorchwyl cenedlaethol i Gymru gyfan, yn unigryw i'r Sefydliad. Yn ogystal, mae cydweithio'n agos gyda sefydliadau eraill a chanolfannau ymchwil cyfatebol ar draws Ynysoedd Prydain ac fel rhan o'r Rhwydwaith Ewropeaidd Ymchwil i Blastai ac Ystadau (wedi'i leoli yn Gammel Estrup, Denmarc) yn gosod gwaith a chanfyddiadau'r Sefydliad mewn trafodaeth a chyd-destun deallus, sy'n arwyddocaol yn rhyngwladol ac â chysylltiad byd-eang.











AN ESSAY

ON THE

USE AND ABUSE OF LIME

AS A MANURE,

TO WHICH WAS AWARDED A PRIZE OF TEN SOVEREIGNS, GIVEN BY THE RIGHT HON. EARL CAWDOR, IN CONNEXION WITH THE CARMARTHENSHIRE AGRICULTURAL SOCIETY,

SEPTEMBER 17th, 1851.

BY THOMAS MORGAN.



# SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU

SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU • INSTITUTE FOR THE STUDY OF WELSH ESTATES

## #ISWE

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Y ganolfan ymchwil genedlaethol ar gyfer gwella dealltwriaeth o hanesion, diwylliannau a thirweddau Cymru trwy brism ystadau tir a'u casgliadau treftadaeth ddiwylliannol**

- Cymru gyfan
- Rhagoriaeth ymchwil
- Yn seiliedig ar gasgliadau
- Partneriaethau a chydweithio
- Rhyngddisgyblaethol
- Digwyddiadau cyhoeddus ac ymwneud â'r gymuned
- Ailasesu'r gorffennol, gan lywio'r dyfodol

**I ddilyn, cysylltu a chefnogi:**

Gwefan - http://iswe.bangor.ac.uk

Ebost- iswe@bangor.ac.uk

Twitter - @YstadauCymru #ISWE

Facebook - facebook.com/YstadauCymru